Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP)

2026 - 2029

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Cynnwys

Cynllun ar Dudalen 1

Rhagair 2

Pennod 1 - Pwy ydym ni a'n rôl yn GIG Cymru 4

Pennod 2 - Cyd-destun Strategol 14

Pennod 3 - Fframwaith Strategol yr IMTP 31

Pennod 4 - Amcanion Datblygu 38

Pennod 5 - Rhaglenni Gwaith Cyflawni Craidd ac Ategol 55

Pennod 6 - Cynllun Ariannol 66

Pennod 7 - Atebolrwydd, Cyflawni a Risgiau 74

IMTP 2026-29

Cynllun ar Dudalen

Beth sy'n arwain ein gwaith

Gweledigaeth
Trawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru Iachach

Diben
Fel rhan o'r GIG, gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gweithlu medrus a chynaliadwy sy'n gwella gofal ac iechyd y boblogaeth

Gwerthoedd
- Parchu pawb
- Gyda'n gilydd fel tîm
- Syniadau sy'n gwella

Cyd-destun cenedlaethol ac aliniad â'n cynllun

Fframweithiau Cynllunio GIG Cymru

Blaenoriaethau Ysgrifennydd y Cabinet

Llythyr cylch gwaith Llywodraeth Cymru

Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd

Swyddogaethau Statudol AaGIC

Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol AaGIC a GCC

Ein bwriad strategol

Blaenoriaeth Strategol 1
Llunio'r amodau ar gyfer gweithlu cynhyrchiol, iach ac ymroddedig

Blaenoriaeth Strategol 2
Datblygu Arweinyddiaeth a Rheolaeth yn y ffordd orau bosibl

Blaenoriaeth Strategol 3
Ail-lunio a thrawsnewid ein modelau gweithlu presennol

Blaenoriaeth Strategol 4
Trawsnewid Addysg a Hyfforddiant i ddiwallu anghenion sy'n newid

Blaenoriaeth Strategol 5
Cynllunio'r gweithlu iechyd gan ganolbwyntio ar y dyfodol

Ein darpariaeth strategol

Amcanion Datblygu
cyflawni ein blaenoriaethau strategol

- Cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Ansawdd
- Cynaliadwyedd
- Y Gymraeg

Ein edau aur

Rhaglenni Gwaith Cyflawni Craidd ac Ategol

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar gyfer 2026-29. AaGIC yw sefydliad gweithlu strategol cenedlaethol GIG Cymru ac mae'n rhan o'r GIG. Rydym yn gweithio gyda sefydliadau eraill GIG Cymru, Llywodraeth Cymru ac amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu gweithlu medrus a chynaliadwy sy'n gwella gofal ac iechyd y boblogaeth.

Datblygwyd y cynllun hwn ar adeg pan fo'r GIG dan bwysau gweithredol ac ariannol sylweddol. Mae cynnydd cadarnhaol wedi cael ei wneud dros y blynyddoedd diwethaf o ran tyfu'r gweithlu a'r biblinell hyfforddiant i fynd i'r afael â'r diffygion sylweddol yn y gweithlu sydd wedi effeithio ar ansawdd a chost gwasanaethau ar ôl COVID. Fodd bynnag, bydd baich disgwyliedig clefydau a phroffil oedran poblogaeth Cymru yn cyfrannu at gynyddu'r galw am ofal iechyd yn y dyfodol agos. Bydd bodloni'r galw hwn yn gofyn am hyblygrwydd a dychymyg wrth drawsnewid a dylunio gwasanaethau, datblygu rolau, addysgu ein gweithlu, darparu arweinyddiaeth system, ac ymateb i heriau newydd ac annisgwyl. Bydd cefnogi ein gweithlu i fod mor gynhyrchiol â phosibl wrth galon ein holl raglenni gwaith.

Mae ein cynllun yn nodi pum blaenoriaeth strategol sy'n anelu at yr uchelgais a nodir yn y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru. Erbyn 2030, bydd gennym weithlu Iechyd a Gofal Cymdeithasol brwdfrydig, ymrwymedig a gwerthfawr sydd â'r gallu, y cymhwysedd a'r hyder i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ymrwymiad y llywodraeth newydd i ddatblygu cynllun gweithlu tymor hwy newydd erbyn yr hydref a bydd hyn yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o lywio ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn y dyfodol.

Fel y llynedd, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi canllawiau penodol i AaGIC ar flaenoriaethau drwy Lythyr Cylch Gwaith sy'n cynnwys datganiad clir o ddisgwyliadau, meysydd blaenoriaeth a chyllid cysylltiedig ar gyfer cyflawni. Mae'r rhain yn cyd-fynd â Blaenoriaethau Strategol 2026-29, a byddant yn cael eu cyflawni drwy ein Hamcanion Datblygu ar gyfer 2026-27.

Mae ein cynllun hefyd yn cyflwyno ein Rhaglenni Gwaith Cyflawni Craidd, sy'n cynnwys y cyfrifoldebau swyddogaethol hynny sy'n parhau o un flwyddyn i'r llall. Mae'r rhain yn cynnwys gweithgareddau craidd ym maes comisiynu, darparu addysg a hyfforddiant i amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol yng Nghymru, gyrfaoedd yn y GIG, cynllunio a thrawsnewid y gweithlu, a datblygu arweinyddiaeth.

Mae'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant ar gyfer 2026-27 sydd eisoes wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar barhau i gefnogi rhaglenni allweddol a fydd yn cefnogi staffio a gwasanaethau ar draws GIG Cymru, ac sy'n rhan sylweddol o'n Cynllun Tymor Canolig Integredig.

Er gwaethaf y sefyllfa ariannol gyfyngedig, mae'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei gefnogi gan gynllun adnoddau cytbwys ar gyfer 2026/27, sy'n adlewyrchu

blaenoriaethu, dewisiadau a risg sydd wedi cael eu trafod a'u cytuno gyda'r Bwrdd.

Rydym yn edrych ymlaen at gyflawni cyfres uchelgeisiol arall o amcanion eleni, gyda chefnogaeth ein cydweithwyr yn y GIG a phartneriaid eraill, a thrwy broffesiynoldeb a brwdfrydedd ein staff yn AaGIC.

Rydym yn hyderus bod ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn disgrifio sut y byddwn yn parhau i ddarparu gweithlu cynaliadwy a fydd yn galluogi darparu gofal diogel o ansawdd uchel i bobl Cymru.



Ms Alex Howells
Prif Weithredwr



Dr Christopher Jones
CBE, Cadeirydd

Pennod 1:
Pwy ydym ni a'n rôl yn GIG Cymru

GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Mae Pennod 1 yn disgrifio pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud i'r GIG yng Nghymru. Mae'n amlinellu ein gweledigaeth, ein pwrpas a'n swyddogaethau allweddol, ac yn nodi ein cyflawniadau diweddar a'n heffaith.



Gweledigaeth a diben

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) yw sefydliad addysg a gweithlu strategol statudol GIG Cymru. Rydym yn Awdurdod Iechyd Arbennig sydd â chylch gwaith ar gyfer Cymru gyfan, ac rydym yn gweithio gyda phartneriaid ar draws iechyd, addysg, cyrff rheoleiddiol a phroffesiynol a'r llywodraeth.

Ein diben

Ein diben:

"Fel rhan o'r GIG, gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu gweithlu medrus a chynaliadwy sy'n gwella gofal ac iechyd y boblogaeth".

Ein gweledigaeth

Ein gweledigaeth:

"Trawsnewid y gweithlu ar gyfer Cymru iachach".

Ein diwylliant, ein gwerthoedd a'n hymddygiad

Rydym yn ymdrechu i greu diwylliant tosturiol, cynhwysol a chydweithredol gyda lefelau uchel o ymgysylltu â staff, a ffocws ar ein gwerthoedd a'n hymddygiadau sydd wedi cael eu datblygu gyda'n staff:



Mae egwyddorion ansawdd, cydraddoldeb, amrywiaeth a chynaliadwyedd wedi'u gwreiddio ar draws ein gweithgareddau fel sefydliad, gan gydnabod ehangder yr effaith y gallwn ei chael ar y gweithlu cyfan.

Ein swyddogaethau

Cynllunio, Comisiynu a Darparu Addysg a Hyfforddiant

Mae AaGIC yn gyfrifol am gynllunio, comisiynu, rheoli ansawdd ac, mewn rhai achosion, darparu addysg a hyfforddiant ar draws amrywiaeth eang o weithwyr iechyd proffesiynol. Mae ein cyfrifoldebau'n cwmpasu addysg a hyfforddiant israddedig ac ôl-raddedig, datblygiad ôl-gofrestru, a dysgu seiliedig ar waith. Rydym yn darparu llawer iawn o Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar gyfer nifer o broffesiynau, gyda chefnogaeth ein llwyfan dysgu digidol, Y Tŷ Dysgu.

Rydym yn gyfrifol am lunio Cynllun Addysg a Hyfforddiant (ETP) blynyddol AaGIC. Mae hwn yn gwneud argymhellion strategol i Lywodraeth Cymru ar sail mewnbwn a chyngor gan sefydliadau'r GIG a phartneriaid eraill, i hysbysu nifer y lleoedd hyfforddi y mae angen eu comisiynu.

Mae ein IMTP a'n ETP yn rhyngddibynnol; mae pob un yn hanfodol i gyflawni'r llall, a gyda'i gilydd maent yn crisialu cwmpas llawn gweithgareddau AaGIC. Felly, mae cyflawni'r argymhellion yn ETP 2026-27 yn hanfodol er mwyn cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn.

Arweinyddiaeth, Diwylliant a Chynllunio Olyniaeth

Mae AaGIC yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o ddylunio a darparu rhaglenni datblygu arweinyddiaeth cenedlaethol i GIG Cymru, gyda'r bwriad o wella'r gwaith o reoli talent, cefnogi'r gwaith o gynllunio olyniaeth, a chreu diwylliannau tosturiol a chydweithredol. Mae ein Porth Gwella yn ganolbwynt ar gyfer datblygu arweinyddiaeth ac mae'n cynnal amrywiaeth o adnoddau diwylliant ac arweinyddiaeth sy'n seiliedig ar dystiolaeth, gan gynnwys hyb goruchwylio i gefnogi staff ar bob lefel.

Strategaeth, Cynllunio a Gwybodaeth am y Gweithlu

Mae AaGIC yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o sicrhau bod GIG Cymru yn cynllunio'r gweithlu'n drylwyr ar lefel leol a chenedlaethol. Rydym yn darparu arweinyddiaeth strategol ac adnoddau; rydym wedi datblygu systemau cenedlaethol sy'n darparu data a gwybodaeth am y gweithlu; ac rydym yn cydweithio â sefydliadau eraill GIG Cymru i wella'r gwaith o gasglu'r data sydd ei angen i gynhyrchu gwybodaeth gywir a hygyrch am y gweithlu.

Rydym hefyd yn datblygu ac yn gweithredu cynlluniau gweithlu strategol cenedlaethol ar gyfer proffesiynau a gwasanaethau allweddol (gan gynnwys nyrsio, iechyd meddwl a genomeg) yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol.

Datblygu a Thrawsnewid y Gweithlu

Rydym yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o ddatblygu atebion newydd i'r gweithlu er mwyn mynd i'r afael â heriau gwasanaeth a phwysau ar y gweithlu. Rydym yn gweithio ar draws amrywiol broffesiynau iechyd ac fel rhan o Raglenni Cenedlaethol GIG Cymru. Rydym yn cynllunio ac yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Arolwg Staff blynyddol GIG Cymru ac yn datblygu rhaglenni sy'n diwallu anghenion cenedlaethol fel cadw staff. Rydym yn dylunio rolau newydd a gwell, yn cefnogi gwaith amlddisgyblaethol, yn annog staff i weithio ar 'lefel uchaf eu trwydded', ac yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu

sgiliau, datblygiad proffesiynol parhaus a datblygu llwybr gyrfa. Mae'r gwaith hwn yn allweddol i wneud y gorau o'r gweithlu a chefnogi cynhyrchiant.

Atyniad, Gyrfaoedd ac Ehangu Mynediad

AaGIC sy'n arwain y fframwaith strategol ar gyfer gyrfaoedd ym maes iechyd yng Nghymru, sydd wedi'i ddylunio i ddenu talent newydd i'r GIG ac i gryfhau enw da Cymru fel lle i hyfforddi a gweithio. Rydym yn cefnogi taith gyfan gyrfa, o recriwtio i hyfforddiant i ddatblygiad proffesiynol parhaus, ac yn darparu llwyfannau a fframweithiau i gefnogi twf proffesiynol.

Rydym wedi ymrwymo i leihau'r rhwystrau i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ac i sicrhau bod y gweithlu'n cynnwys amrywiaeth eang o sgiliau a phrofiadau.

Cefnogaeth Broffesiynol i'r Proffesiwn Pobl

Mae dyletswydd statudol ar AaGIC i gefnogi datblygiad y proffesiwn Pobl yn GIG Cymru. Yn wahanol i'r Proffesiwn Cyllid, er nad oes Academi Pobl bwrpasol, rydym yn defnyddio adnoddau'n greadigol i gefnogi dulliau systematig a strwythuredig o ddatblygu a phroffesiynoli'r Proffesiwn Pobl, ac rydym wedi creu fframweithiau, llwybrau gyrfa a hyfforddiant i feithrin timau Pobl cynaliadwy, cynhwysol a medrus.

Ailddilysu

Mae AaGIC yn rheoli'r broses arfarnu ac ailddilysu ar gyfer meddygon yng Nghymru drwy ei Uned Cymorth Ailddilysu (RSU). Rydym yn cefnogi ailddilysu Meddygon Teulu a rheoli ansawdd arfarniadau, ac rydym yn darparu systemau ar-lein fel y System Ailddilysu Arfarnu Meddygol (MARS). Rydym hefyd yn hwyluso'r gwaith o gasglu adborth DPP, cleifion/cydweithwyr, ac yn cefnogi ailddilysu hyfforddeion drwy gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau arwyddocaol a sicrhau bod gofynion ailddilysu'n cael eu bodloni adeg y Dystysgrif Cwblhau Hyfforddiant (CCT).

Ein cyflawniadau yn 2025-26

Rydym ar y trywydd iawn i gyflawni yn erbyn y rhan fwyaf o'r gweithgareddau arfaethedig a nodwyd fel blaenoriaethau yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025-26. Mae'r adran ganlynol yn rhoi cipolwg ar rai o'r prif lwyddiannau ac yn tynnu sylw at effaith ein gwaith.

Cynllunio'r Gweithlu

Ar ôl cymeradwyo Cynllun Addysg a Hyfforddiant 2025/26, comisiynwyd £294.2m i gefnogi ffrwd gweithlu'r dyfodol, sy'n cynrychioli 84% o ddyraniad refeniw AaGIC. Roedd perfformiad recriwtio yn dal yn gryf ar draws addysg feddygol a deintyddol, gyda chyfraddau llenwi o dros 95% ar draws y rhan fwyaf o arbenigeddau meddygol ôl-raddedig, cyfraddau llenwi o 100% mewn rhaglenni Hyfforddiant Meddygon Teulu a Sylfaenol, a'r gyfradd swyddi sylfaenol gwag isaf yn y DU. Cyflawnodd Hyfforddiant Deintyddol Sylfaenol gyfradd lenwi o 100% a Hyfforddiant Deintyddol Craidd 96%, tra bod cyfradd gadael meddygon preswyl yn parhau i fod yn is na 4%. Roedd cyfradd llenwi hyfforddiant Fferylliaeth Sylfaenol yn 100%, gyda'r gyfradd gadael wedi gostwng o 10% i 3%. Cyrhaeddodd lefel recriwtio i'r rhaglen technegwyr fferyllol cyn cofrestru 95%, gyda'r gyfradd gadael yn gostwng i 0%, a 98% o'r rhai a gwblhaodd y rhaglen yn aros yng Nghymru.

Mae recriwtio i raglenni nyrsio wedi dangos amrywiad ar draws meysydd, gyda chyfraddau llenwi Hydref 2025 yn 76% yn gyffredinol a recriwtio is mewn rhai meysydd, gan gynnwys anabledd dysgu a nyrsio iechyd meddwl. Mae cyfraddau gadael ar draws rhaglenni nyrsio a bydwreigiaeth yn dal yn is na throthwyon y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA), gyda chyfradd gadael nyrsio yn 5.6% o'i gymharu â DPA o 10% a bydwreigiaeth yn 4.6% o'i gymharu â DPA o 8%. Mae recriwtio ar gyfer Bydwreigiaeth wedi aros dros 98% am dros bum mlynedd yn olynol.

Roedd prosesau addysg i gyflogaeth wedi sicrhau bod 100% o raddedigion nyrsio a bydwreigiaeth wedi cael eu dyrannu drwy symleiddio, ac amcangyfrifir bod 85% o raddedigion Proffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddor Gofal Iechyd a gefnogir gan fwrsari yn cael eu cyflogi yng Nghymru. Mae boddhad dysgwyr yn parhau i fod yn gryf, gyda 78-82% o feddygon preswyl yn dweud eu bod yn fodlon â'u hyfforddiant ac 89% o fyfyrwyr optometreg yn rhoi sgôr gadarnhaol i'w profiad hyfforddi. Mae'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol wedi achredu'r Rhaglen Hyfforddiant Sylfaenol amlsector i Fferyllwyr yn ffurfiol, gan alluogi graddedigion o 2026 ymlaen i gymhwyso fel Presgripsiynwyr Annibynnol.

Addysg a Thrawsnewid y Gweithlu

Drwy gydol y flwyddyn hon, rydym wedi parhau â rhaglen uchelgeisiol o ddiwygio a datblygu ar draws ein swyddogaethau addysg a gweithlu.

Lansiwyd Academi Endosgopi Cymru ym mis Ionawr 2024 ac roedd yn cynnig dull cyson ar gyfer Cymru gyfan mewn uned ganolog wedi'i chefnogi gan hyfforddiant lleol. Gan mai cynllun pontio oedd hwn, mae 2025-26 wedi rhoi cyfle i ni weithio gyda phartneriaid i ddatblygu cynnig ar gyfer model academi cynaliadwy i ddiwallu anghenion y gweithlu endosgopi ledled Cymru, gan gynnwys cyfleuster allweddol ym Mharc Iechyd Llantrisant.

Yn ystod 2024-25, cynhaliodd yr Academi 34 o ddigwyddiadau hyfforddi, gan hyfforddi 447 o staff y GIG. Roedd hyn yn cynnwys 204 o Nyrsys, 170 o staff Meddygol ac anfeddygol, a 73 o staff Gweinyddol/Clercio. Dangosodd cynllun peilot hyfforddiant carlam ostyngiad o hyd at 45% mewn amser hyfforddi, gan gefnogi'r gwaith o ddatblygu capasiti gwasanaethau'n gyflymach. Roedd y ddarpariaeth yn 2025 wedi cynnal lefelau boddhad uchel, gyda sgôr cyfartalog o 6.5 allan o 7 gan gynrychiolwyr.

Mae'r Academi Addysg a Hyfforddiant Gofal Sylfaenol amlbroffesiynol yn parhau i sbarduno cyfleoedd i gefnogi blaenoriaethau polisi fel Cymuned drwy Ddylunio.

Mae'r academïau hyn yn galluogi gweithlu gofal sylfaenol amlbroffesiwn i ddatblygu'r sgiliau, y galluoedd a'r hyder sydd eu hangen i ddarparu gofal o ansawdd uchel mewn lleoliadau cymunedol. Mae'r model hwn yn cynrychioli dull gweithredu 'unwaith i Gymru', gan sicrhau cysondeb cenedlaethol ar yr un pryd â chaniatáu i'r ddarpariaeth gael ei theilwra i anghenion y boblogaeth leol. Hyd yma, mae'r ddarpariaeth wedi canolbwyntio ar feysydd gweithlu â blaenoriaeth, gan gynnwys Rhaglen Sylfaen Nyrsio Meddygon Teulu, datblygu gallu a chymhwysedd amlbroffesiwn ar gyfer Gwasanaethau Gofal Sylfaenol Brys a Chyhyrysgerbydol a DPP ar gyfer y gweithlu cymorth gweithredol, gan gynnwys rheolwyr practis.

Mae'r Academi Addysg a Hyfforddiant Gofal Sylfaenol wedi cryfhau gallu a gwytnwch y gweithlu ar draws lleoliadau cymunedol. Mae amser dysgu wedi'i neilltuo wedi'i wreiddio mewn gofal sylfaenol drwy gymorth i 372 o dimau meddygon teulu, gan atgyfnerthu diwylliant o ddatblygiad parhaus. Mae wyth deg a thri o nyrsys wedi cwblhau'r Rhaglen Sylfaen Nyrsio Meddygon Teulu, gan wella gofal ataliol sy'n seiliedig ar leoedd sy'n cyd-fynd â'r fframwaith cymwyseddau cenedlaethol. Mae chwe Chymrawd Meddygon Teulu Gofal Integredig wedi cael eu penodi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, gan gyfrannu at ofal sy'n canolbwyntio ar fregusrwydd, gweithgarwch ymchwil a gwell prosesau recriwtio a chadw meddygon teulu mewn ardaloedd gwledig. Cefnogwyd dros 200 o fyfyrwyr nyrsio a 55 o oruchwylwyr drwy leoliadau cymunedol, gan gynyddu'r amlygiad i yrfaoedd gofal sylfaenol ac ysgogi'r galw am rolau yn y gymuned. Mae darparu dros 60 o raglenni sy'n cael eu harwain yn lleol wedi cryfhau gallu clinigol dros 300 o ddysgwyr, ac mae rhwydweithiau cymheiriaid sefydledig ar gyfer nyrsys meddygon teulu, gweithwyr cymorth gofal iechyd a rheolwyr practisau wedi gwella cymorth proffesiynol a chynaliadwyedd y gweithlu ledled Cymru.

Mae'r defnydd o System Rheoli Dysgu (LMS) Y Tŷ Dysgu yn parhau i ehangu a datblygu i wella ansawdd a hygyrchedd dysgu amlbroffesiynol y gweithlu. Erbyn hyn, mae gan y platfform dros 35,000 o ddefnyddwyr gweithredol, gyda thwf cyson o 3-4% o fis i fis, ac mae'n cynnal dros 400 o fodiwlau dysgu a 200 o ddigwyddiadau byw. Defnyddir dull safonol o werthuso i gefnogi penderfyniadau mwy gwybodus am ddylunio a buddsoddi mewn addysg.

Mae ychwanegiadau diweddar yn cynnwys addysg Iechyd Menywod, Iechyd Meddwl Amenedigol, NEST (Hawliau Plant), CAMHS, gordewdra plant, Anghydraddoldebau Iechyd (AHP), Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a defnyddio Meddyginiaeth a Genomeg.

Mae Y Tŷ Dysgu yn cynnal y rhaglen Achredu Gwasanaethau Clinigol Cenedlaethol (NCSA) ddiweddaraf ar gyfer fferylliaeth gymunedol, gyda'r adran sgiliau cyffredinol gorfodol bellach wedi'i chwblhau gan dros 7,000 o ddefnyddwyr.

Mae ein gwaith addysg sy'n seiliedig ar efelychu yn sbarduno arloesedd ac ansawdd yn y maes addysg a hyfforddiant cynyddol bwysig hwn sy'n chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddatblygu gweithlu diogel o ansawdd uchel yn y GIG. Mae gweithgarwch addysg efelychu a DPP wedi cyrraedd dros 500 o ddysgwyr a rhanddeiliaid, gan gynnwys 165 o gyfranogwyr yng nghynhadledd genedlaethol 2025, a 227 o gyfadrannau efelychu wedi'u hyfforddi ers 2022. Mae'r gwaith hwn yn seiliedig ar gydweithio cenedlaethol a rhyngwladol ar ddatblygu safonau efelychu sydd bellach yn cael eu hyrwyddo ledled Cymru, a gwaith sylfaenol i gefnogi arloesedd yn y dyfodol mewn addysg drochi ac addysg sy'n seiliedig ar efelychu.

Mae'r rhaglen Gwyddor Gofal Iechyd (HCS) wedi sicrhau gwelliannau strwythurol sylweddol o ran gweledegd, datblygiad a llywodraethu proffesiynol. Mae fframwaith proffesiynau Gwyddor Gofal Iechyd cynhwysfawr cyntaf y DU wedi cael ei gyhoeddi, sy'n cwmpasu 100% o broffesiynau, gyda llwybrau dilyniant gyrfa sy'n benodol i broffesiwn wedi'u datblygu ar gyfer 94% (30 o 32). Mae bylchau mewn addysg wedi cael eu mapio ar draws pob proffesiwn, gyda bylchau'n cael sylw naill ai drwy addysg wedi'i chomisiynu neu wedi'u hymgorffori yng nghynlluniau AaGIC. Mae'r strategaeth ymchwil ac arloesi gyntaf sy'n benodol i'r proffesiwn yn y DU hefyd wedi cael ei chyhoeddi. Rhwng 2024 a 2025, gostyngodd trosiant ar draws proffesiynau Gwyddor Gofal Iechyd 47%, sef y gwelliant cymharol mwyaf ar draws meysydd proffesiynol. Mae polisïau cofrestru'r Bwrdd Iechyd bellach ar waith mewn tri Bwrdd Iechyd ac yn cael eu datblygu mewn tri arall.

Mae Cynllun Datblygu Gweithlu Strategol y Proffesiynau Perthynol i Iechyd (AHP) wedi bwrw ymlaen â chyfres o gamau gweithredu tymor byr i fynd i'r afael â heriau a nodwyd yn y gweithlu. Mae Hyb Goruchwylio Aml-broffesiynol cenedlaethol wedi cael ei lansio ac, o fewn deg mis, wedi ymgysylltu â thros 2,000 o ddefnyddwyr gyda thros 6,600 o ymweliadau. Mae cynlluniau i gefnogi recriwtio, denu a gwella cyfleoedd ar gyfer gweithwyr cymorth AHP wedi cael eu rhoi ar waith. Mae ceisiadau i raglenni arweinyddiaeth cenedlaethol wedi cynyddu, gyda chynnydd o 55% mewn ceisiadau i Gymrodoriaeth Hyfforddiant Arweinyddiaeth Glinigol Cymru a chynnydd o 192% ar gyfer y Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Uwch. Mae adnodd 'siop un stop' amlbroffesiynol ar gyfer cynllunio'r gweithlu wedi cofnodi dros 1,000 o ryngweithiadau ymgysylltu â'r gweithlu ers ei lansio ym mis Hydref 2025. Sefydlwyd rhwydwaith cenedlaethol ar gyfer Anghydraddoldebau Iechyd yn y Blynyddoedd Cynnar hefyd, gyda 100 o aelodau gweithredol.

Gweithredu ein Strategaeth Ddigidol a Data

Mae Strategaeth Ddigidol a Data AaGIC wedi cael ei rhoi ar waith yn ystod 2025-26 drwy gyflwyno'r llwyfan Codi newydd. Lansiwyd Codi ym mis Rhagfyr 2025 ac mae'n cyfuno nifer o hen systemau gweithlu mewn un llwyfan modern sy'n cefnogi dros 10,000 o feddygon preswyl, deintyddion sylfaen, fferyllwyr dan hyfforddiant a gweithwyr

clinigol proffesiynol eraill. Mae'r cam cyntaf wedi moderneiddio ffyrdd o weithio ac wedi symleiddio prosesau, gyda gwelliannau mewn ansawdd data yn ffynhonnell ddibynadwy o wybodaeth am y gweithlu ar gyfer AaGIC a Byrddau Iechyd. Mae'r llwyfan yn cryfhau cydymffurfiad â safonau seiber a thechnoleg a rhagwelir y bydd yn arbed £276,000 y flwyddyn o ran trwyddedau. Mae hefyd yn lleihau'r gofynion mewnbwn â llaw, gan ryddhau dros 300 awr y mis mewn enillion effeithlonrwydd.

Mae ein swyddogaeth ddigidol yn aeddfedu yn unol â'n strategaeth Data a digidol. Mae ein porth data a dadansoddi wedi cael ei ddatblygu'n sylweddol eleni wrth i ni ymdrechu i fod yn sefydliad sy'n cael ei yrru gan ddata. Bu gwelliant sylweddol mewn gwybodaeth am y ffrwd addysg i gyflogaeth, cynllunio'r gweithlu (modelu data cyflenwad a galw), Cofnod Staff Electronig (ESR), Safonau Cydraddoldeb Hiliol y Gweithlu (WRES) yn ogystal ag ymatebion i ofynion penodol fel modelu cyflogau, arolwg staff ac arolygon myfyrwyr.

Arweinyddiaeth a Diwylliant

Mae rhaglenni arweinyddiaeth cenedlaethol yn parhau i gryfhau gallu systemau ac olyniaeth ar draws GIG Cymru. Mae 14 o gyfranogwyr o garfan gyntaf y Darpar Gyfarwyddwr Gweithredol wedi symud ymlaen i rolau gweithredol, ac mae 34 o 36 o hyfforddeion Rheoli Graddedig yn parhau i gael eu cyflogi yn GIG Cymru, gan gefnogi parhad a llif talent fewnol.

Mae Rhaglen Gadw Cymru Gyfan wedi cael effaith fesuradwy ar y system, gyda throsiant cenedlaethol yn gostwng o 8.9% i 7.6% a chyfraddau ymddiswyddo gwirfoddol yn gostwng 17%, sy'n cyfateb i amcangyfrif o 1,167 o staff wedi'u cadw rhwng mis Rhagfyr 2023 a mis Gorffennaf 2025.

Mae cyfradd ymateb Arolwg Staff GIG Cymru wedi cynyddu i 30%, sy'n cynrychioli 34,645 o ymatebion staff, gan gryfhau'r mewnwelediad cenedlaethol i brofiad ac ymgysylltiad y gweithlu.

Blaenoriaethau Cenedlaethol

Drwy swyddogaeth ein rhaglen genedlaethol, mae AaGIC wedi datblygu nifer o atebion gweithlu Cymru Gyfan sy'n cyd-fynd â meysydd gwasanaeth â blaenoriaeth.

O ran gwasanaethau amlawdriniaethol, mae asesiad sylfaenol o'r gweithlu theatr wedi cael ei gwblhau a gweithdai rhanbarthol wedi cael eu cyflwyno i lywio'r gwaith o ddatblygu addysg ac arweinyddiaeth ar gyfer staff amlawdriniaethol. Mewn gofal brys a gofal argyfwng, mae'r Fframwaith Cymhwysedd Ymarferwyr Gofal Brys amlbroffesiwn wedi cael ei gwblhau ac mae'n cael ei werthuso gan ddefnyddwyr ar hyn o bryd, gydag adnoddau dysgu ategol yn cael eu datblygu. Mae Fframwaith Cymhwysedd Gofal Lliniarol a Diwedd Oes cenedlaethol wedi cael ei lansio, gydag adnoddau e-ddysgu'n cael eu cyflwyno i gefnogi'r broses o'i roi ar waith ledled Cymru. Mewn gwasanaethau canser, mae gwaith paratoi ar y gweill i gyflwyno fframwaith ACCEND o 2026 ymlaen i gefnogi'r gweithlu nyrsio canser arbenigol. Gyda'i gilydd, mae'r fframweithiau a'r adnoddau addysg hyn yn darparu safonau cenedlaethol cyson i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r gweithlu mewn meysydd gwasanaeth blaenoriaeth.

AaGIC a'n Partneriaid



Partneriaid GIG Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan

Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

Bwrdd Iechyd Addysgu Powys

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre

Ymddiriedolaeth GIG Brifysgol Gwasanaethau Ambiwlans Cymru

Iechyd a Gofal Digidol Cymru

Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Perfformiad a Gwella GIG Cymru

Pennod 2:
Cyd-destun Strategol



GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Mae Pennod 2 yn nodi'r cyd-destun strategol rydym yn gweithredu ynddo drwy ddadansoddiad PESTLE (Gwleidyddol, Economaidd, Cymdeithasol, Technolegol, Cyfreithiol ac Amgylcheddol). Mae'n nodi'r disgwyliadau a'r blaenoriaethau cenedlaethol hynny sydd wedi siapio cynnwys ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac mae'n disgrifio sut mae'r gwaith o ddatblygu ein cynllun wedi cael ei lywio drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid.



Ffactorau Gwleidyddol

Cymru Iachach

Mae Cymru Iachach wedi parhau i fod yn gynllun hirdymor ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru, ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar y canlynol:

- Cyflymu gofal yn nes at y cartref
- Blaenoriaethu defnyddio offer digidol
- Cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol ataliol, integredig a chynaliadwy.

Cafodd y cynllun ei adnewyddu yn 2024 ac mae'n parhau i adlewyrchu rôl ganolog y gweithlu o ran darparu iechyd a gofal cymdeithasol. Nodwyd tri cham gweithredu sy'n cyd-fynd â Strategaeth y Gweithlu ac sy'n cael eu hadlewyrchu yn ein cynllun:

- Darparu gweithlu cynhwysol, hyblyg ac aml-broffesiynol sy'n gallu gweithio ar draws sectorau a ffiniau traddodiadol drwy sicrhau bod Strategaeth y Gweithlu yn cael ei rhoi ar waith a'i hategu gan ddata rhagorol am y gweithlu a chynllunio i ddenu, recriwtio a chadw pobl dalentog i hyfforddi, gweithio a byw yng Nghymru.
- Gwreiddio arweinyddiaeth dosturiol a meithrin diwylliant cadarnhaol ar draws y GIG a'r system gofal cymdeithasol yng Nghymru i ddod yn gyflogwyr enghreifftiol ar gyfer iechyd, llesiant, amrywiaeth a chynhwysiant yn y gwaith gyda'r bwriad o rannu'r dull hwn ar draws yr economi ehangach.
- Defnyddio'r gweithlu'n effeithiol ac yn effeithlon er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein buddsoddiad yn sgiliau'r gweithlu a thechnoleg i sicrhau canlyniadau diogel i gleifion.

Adroddiad Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Berfformiad a Chynhyrchiant

Roedd Adroddiad Perfformiad a Chynhyrchiant GIG Cymru Grŵp Cynghori'r Gweinidog (MAG), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2025, yn adolygiad annibynnol a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â materion perfformiad arwyddocaol yn GIG Cymru. Dan gadeiryddiaeth Syr David Sloman, gwnaeth y grŵp 29 o argymhellion a oedd yn canolbwyntio ar wella cynhyrchiant, lleihau rhestrau aros, a gwella gofal cleifion ar draws gofal wedi'i gynllunio, diagnosteg, perfformiad canser, a gofal brys/argyfwng.

Roedd gan yr adroddiad oblygiadau sylweddol i AaGIC, gan gynnwys y disgwyliad y byddem yn arwain ar atebion hyfforddi cenedlaethol a rhanbarthol ar gyfer "gwasanaethau bregus" fel patholeg ac endosgopi, mynd i'r afael â bylchau yn y gweithlu sy'n llesteirio cynhyrchiant, a chefnogi'r mentrau effaith uchel i wella llwybrau gofal cleifion. Byddwn yn parhau i ymateb i'w argymhellion yn ystod cyfnod cynllunio'r Cynllun Tymor Canolig Integredig nesaf, gan ganolbwyntio'n benodol ar arweinyddiaeth glinigol, datblygu rheolwyr gweithredol ac endosgopi.

Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd: Camau Cyflawni â Blaenoriaeth ar gyfer Gwell Iechyd a Gofal 2025/26

Mae 'Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd: Camau Cyflawni â Blaenoriaeth ar gyfer Gwell Iechyd a Gofal 2025/26' yn fframwaith o gamau gweithredu allweddol a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 gan Ysgrifennydd y Cabinet, sy'n canolbwyntio ar y canlynol:

- Moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant
- Gwella gweithio'n rhanbarthol
- Gwella didwylledd, atebolrwydd a chydweithio
- Dulliau atal mwy effeithiol
- Rhoi mwy o wasanaethau yn y gymuned
- Gwireddu potensial digidol ac arloesedd

Mae AaGIC mewn sefyllfa unigryw i gyfrannu at nifer o'r amcanion hyn, yn enwedig moderneiddio arweinyddiaeth a diwylliant, atal mwy effeithiol, a gwireddu potensial digidol ac arloesedd. Yn ystod 2025-26, fe wnaethom geisio mapio'r amcanion yn ein Cynllun Tymor Canolig Integredig ar gyfer 2025-28 yn erbyn y blaenoriaethau allweddol a ddisgrifir yn Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd, gan sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i fod yn ymwybodol o gyfraniad parhaus AaGIC. Ar gyfer 2026-29, ein bwriad yw y bydd nodau Gwella Perfformiad Gyda'n Gilydd yn cael eu cofnodi'n fwy penodol yn amcanion ein Cynllun Tymor Canolig Integredig, gan alluogi mwy o effaith a monitro mwy cadarn.

Cymuned drwy Ddylunio

Bydd 'Cymuned drwy Ddylunio' (CbD) GIG Cymru yn blaenoriaethu'r gwaith o gynllunio gwasanaethau o safbwynt y defnyddiwr gwasanaeth. Oni phrofir yn wahanol, mae'n rhagdybio y gellir darparu gofal yn y gymuned, gan ddefnyddio gofal yn yr ysbyty dim ond pan fydd angen hyn oherwydd angen clinigol mwy cymhleth neu gynyddol.

Nod CbD yw creu gwasanaethau iechyd a gofal cynaliadwy, integredig a rhagweithiol yn nes at adref, gan ganolbwyntio ar atal, hunanofal a chydweithio ar draws timau amlbroffesiwn. Mae'n gofyn am ymgysylltiad gan yr holl glinigwyr ar draws y llwybr i ddeall anghenion iechyd y boblogaeth ac i gynnig yr atebion mwyaf effeithiol a chymesur i'r gymuned.

Bydd cyflawni CbD a chefnogi ffyrdd newydd o ddarparu gofal yn ei gwneud yn ofynnol i AaGIC hwyluso'r gwaith o ddatblygu modelau gweithlu newydd wedi'u hailddylunio ac adolygu cymysgedd sgiliau gweithlu GIG Cymru.

Adroddiad Asesiad Sicrwydd Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru Gyfan

Mae adroddiad Asesiad Sicrwydd Gwasanaethau Mamolaeth a Newyddenedigol Cymru Gyfan (a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2026) yn tynnu sylw at wendidau critigol yng ngwasanaethau mamolaeth Cymru. Mae gan AaGIC rôl hollbwysig o ran mynd i'r afael â'r argymhellion yn yr adroddiad, gan nodi'n benodol yr angen brys am gynllun gweithlu amlddisgyblaethol sy'n gallu datrys prinder staff cronig a materion cymysgedd sgiliau sy'n atal y gweithlu rhag ymateb i'r galw cynyddol am wasanaethau ac anghenion gofal cymhleth.

Cenedl Marmot

Fel rhan o'i gwaith parhaus i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, mae Llywodraeth Cymru wedi

ymrwymo i Gymru i fod yn 'Genedl Marmot' gyntaf y byd. Mae'r ymrwymiad i fabwysiadu wyth egwyddor Syr Michael Marmot yn adeiladu ar Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru - sydd eisoes yn mynnu bod AaGIC yn ystyried effaith hirdymor ei benderfyniadau ar genedlaethau'r dyfodol - a bydd yn mynnu bod AaGIC yn canolbwyntio ar ddatblygu'r gweithlu, hyfforddiant arweinyddiaeth, a'r strategaethau addysgol sydd eu hangen i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.

Etholiad y Senedd

Gall etholiad y Senedd arwain at newidiadau mewn blaenoriaethau polisi cenedlaethol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Er bod y ffactorau cyffredinol sy'n sbarduno'r galw ar y gweithlu yn debygol o aros yn gyson, bydd angen i AaGIC gadw hyblygrwydd o ran sut rydym yn cyflawni ein cynllun er mwyn i ni allu ymateb i unrhyw newidiadau mewn blaenoriaethau gweinidogol neu gyfeiriad system sy'n dod i'r amlwg dros y misoedd nesaf.

Ar yr un pryd, bydd ein rôl graidd o ran cefnogi addysg, datblygu'r gweithlu a llif graddedigion i'r GIG yn parhau i fod yn hanfodol waeth beth fo'r cyd-destun gwleidyddol. Felly, nod y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn yw cydbwyso ymatebolrwydd i flaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg â'r angen i gynnal sefydlogrwydd o ran y cyflenwad addysg a chynllunio'r gweithlu.

Ffactorau Economaidd

Sefyllfa Ariannol GIG Cymru

Mae GIG Cymru yn wynebu heriau ariannol sylweddol o ganlyniad i gyfuniad o ffactorau gan gynnwys mwy o alw, chwyddiant a chostau gweithredu uwch. Mae'r rhagolygon ariannol ar gyfer 2026/27 yn heriol. Mae Bwrdd Gwerth a Chynaliadwyedd Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar feysydd gwastraff a chyfleoedd i fod yn fwy effeithiol ac effeithlon. Mae un o'r tri maes blaenoriaeth yn ymwneud â'r gweithlu, gan gydnabod y twf diweddar ym maint a chost gweithlu GIG Cymru a'r rheidrwydd i wneud y gorau o'r buddsoddiad hwn. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd i integreiddio rhaglenni gwaith AaGIC yn agosach, yn ogystal â risgiau, fel cyfleoedd cyflogaeth i raddedigion.

Fel rhan annatod o system GIG Cymru, mae AaGIC yn wynebu'r heriau hyn, a disgwylir iddo nodi'r potensial ar gyfer arbedion ac arbedion effeithlonrwydd a chynyddu effaith a budd ein dyraniad ariannol i'r eithaf.

Cyflogau'r GIG

Gan ychwanegu at yr amrywiaeth o heriau ariannol sy'n amlwg ar draws GIG Cymru, mae'r system yn wynebu heriau cyflog critigol sy'n gysylltiedig â dyfarniadau cyflog is na chwyddiant. Bydd pwysau ariannol parhaus yn cyfyngu ar allu GIG Cymru i gynnig codiadau cyflog uwch heb effeithio ar wasanaethau; mae rhai Undebau wedi mynegi pryder ynghylch dyfarniadau cyflog diweddar a gallai pwysau ariannol parhaus arwain at anesmwythder parhaus a risgiau parhaus.

Ar gyfer AaGIC, bydd heriau o ran cyflog staff yn effeithio ar recriwtio a chadw staff, gyda goblygiadau i ofynion gweithlu byrddau iechyd ac effeithiolrwydd llif addysg a hyfforddiant.

Heriau cynaliadwyedd yn y Sector Addysg

Ar hyn o bryd mae sefydliadau addysg uwch Cymru yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gefnogi datblygiad ein llif gweithlu i'r dyfodol ac maent yn derbyn tua £250m o gontractau addysg iechyd bob blwyddyn.

Mae sector addysg uwch y DU yn wynebu heriau ariannol a gweithredol sylweddol. Caiff y rhain eu gyrru gan gyfuniad o ffactorau gan gynnwys chwyddiant uchel, ansefydlogrwydd recriwtio ac ansicrwydd demograffig, ansefydlogrwydd recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, trosiant staff uchel a gweithredu diwydiannol, ynghyd â chost cynnal ystadau a seilwaith sy'n heneiddio. Mae datblygiadau diweddar ym Mhrifysgol Caerdydd sydd â goblygiadau i'w rhaglen nyrsio wedi tynnu mwy o sylw at hyn.

Wrth edrych i'r dyfodol, mae angen i AaGIC sicrhau bod ei strategaeth ar gyfer y dyfodol yn ystyried yr heriau hyn, gan weithio gyda phartneriaid i symud tuag at ddull gweithredu mwy cynaliadwy.

Ffactorau Cymdeithasegol

Adroddiad y Prif Swyddog Gwyddonol ar y GIG mewn 10 Mlynedd a Mwy

Mae dadansoddiad y Prif Swyddog Gwyddonol yn tynnu sylw at y ffaith y bydd poblogaeth sy'n heneiddio, cymhlethdod cynyddol yr angen, a lefelau cynyddol o gyflyrau hirdymor yn rhoi pwysau cynyddol ar wasanaethau iechyd dros y degawd nesaf. Mae'n awgrymu na fydd y modelau gofal presennol yn parhau'n gynaliadwy heb eu hailgynllunio, ac y bydd atal ac ymyrryd yn gynharach yn dod yn fwyfwy pwysig.

Ar gyfer AaGIC, mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i gefnogi datblygiadau gweithlu sy'n galluogi modelau gofal newydd, yn enwedig mewn lleoliadau cymunedol, ac i sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau a'r hyblygrwydd sydd eu hangen i ymateb i batrymau angen sy'n newid. Mae'r newidiadau hyn yn debygol o arwain at fwy o bobl yn gweithio y tu allan i ysbytai a mwy o angen am sgiliau newydd ac estynedig mewn gofal sylfaenol a chymunedol, a bydd hyn yn siapio sut rydym yn addysgu, hyfforddi a pharatoi'r gweithlu.

Mae pwysigrwydd defnyddio atebion digidol a thechnolegol i wella cynhyrchiant a chefnogi diagnosis cynharach wedi tyfu ymhellach ers cyhoeddi adroddiad y Prif Swyddog Gwyddonol. Yn benodol, mae Deallusrwydd Artiffisial (AI) eisoes yn dechrau dylanwadu ar sut mae gwasanaethau'n gweithredu a sut mae staff yn gweithio:

- Mae adnoddau deallusrwydd artiffisial yn dechrau lleihau'r baich gweinyddol drwy gefnogi tasgau arferol fel drafftio gohebiaeth, crynhoi gwybodaeth a rheoli dogfennau.
- Mae deallusrwydd artiffisial yn cael ei ddefnyddio fwyfwy i helpu i ddehongli delweddau, patholeg a data clinigol arall, gan helpu clinigwyr i wneud penderfyniadau cyflymach a chefnogi diagnosis cynharach.

- Mae offer digidol ac offer sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial hefyd yn cael eu defnyddio i gefnogi'r gwaith o gynllunio rhyddhau, rhagfynegi risg a gwneud penderfyniadau gweithredol, gan helpu gwasanaethau i reoli'r galw a'r capasiti'n fwy effeithiol.
- Mae technolegau "amgylchynol" sy'n dod i'r amlwg yn dechrau cefnogi dogfennu clinigol drwy gofnodi ymgynghoriadau a chynhyrchu nodiadau strwythuredig, gan leihau'r amser y mae staff yn ei dreulio ar gadw cofnodion.

Mae AaGIC wrthi'n gweithio ar ddefnyddio ac integreiddio Deallusrwydd Artiffisial yn GIG Cymru, gan ganolbwyntio'n bennaf ar addysg, hyfforddiant a hyder digidol y gweithlu. Mae'r defnydd cynyddol o ddeallusrwydd artiffisial ar draws gwasanaethau iechyd yn debygol o newid sut mae staff yn gweithio, sut mae gwasanaethau'n cael eu darparu a pha sgiliau fydd eu hangen yn y dyfodol.

I AaGIC, mae hyn yn golygu sicrhau bod gan y gweithlu'r wybodaeth a'r hyder i ddefnyddio deallusrwydd artiffisial yn ddiogel ac yn effeithiol, a bod addysg a hyfforddiant yn cyd-fynd â newidiadau technolegol. Felly, mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys camau gweithredu i ddatblygu dull mwy strwythuredig o ymdrin ag addysg deallusrwydd artiffisial a pharodrwydd y gweithlu.

Tueddiadau'r Gweithlu a'r Cyfrifiad

Mae Cyfrifiad 2021 yn parhau i fod yn ffynhonnell allweddol ar gyfer patrymau demograffig hirdymor, ond mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y farchnad lafur yng Nghymru yn dangos heriau sy'n esblygu:

- Mae poblogaeth De-ddwyrain Cymru yn parhau i dyfu, ac mae llawer o ranbarthau gwledig a gorllewinol yn parhau i fod yn sefydlog neu'n dirywio, tuedd sy'n cael ei hatgyfnerthu gan waith monitro parhaus StatsCymru.
- Mae GIG Cymru yn cyflogi cyfran sylweddol o boblogaeth oedran gweithio Cymru, ac mae anweithgarwch economaidd yn parhau i beri pryder.
- Mae data'r Arolwg o'r Llafurlu yn parhau i gael ei adolygu oherwydd materion cyfradd ymateb, sy'n golygu bod angen bod yn ofalus wrth ddehongli tueddiadau cyflogaeth. Bydd y newid tuag at Arolwg o'r Llafurlu wedi'i Drawsnewid newydd yn sail i waith dadansoddi yn y dyfodol.

Mae Adroddiad Tueddiadau Gweithlu diweddaraf GIG Cymru (Mawrth 2025) yn atgyfnerthu gwerth modelu sy'n seiliedig ar ddata, gan gyflwyno gwybodaeth wedi'i diweddaru am faint y gweithlu, demograffeg, absenoldeb oherwydd salwch ac amodau'r farchnad lafur.

Yn gyffredinol, mae gweithlu GIG Cymru wedi tyfu dros y pum mlynedd diwethaf o 83,000 i ychydig o dan 100,000 (cynnydd o tua 20%). Ochr yn ochr â hyn cafwyd effaith anghymesur ar y bil cyflogau, ac mae wedi codi cwestiynau ynghylch i ba raddau y mae gwelliannau mewn cynhyrchiant a newidiadau mewn modelau gofal wedi cael eu cyflawni o ganlyniad i'r twf hwn. Mae twf parhaus o'r maint a'r raddfa hon yn amlwg yn anfforddiadwy yn y cyd-destun ariannol presennol ac o ystyried y newid yn siâp y farchnad lafur.

Mae gwybodaeth am y gweithlu yn parhau i dynnu sylw at y pwysau sy'n gysylltiedig â gweithlu sy'n heneiddio,

absenoldeb oherwydd salwch a disgwyliadau newidiol ynghylch hyblygrwydd a llwybrau gyrfa. Ar yr un pryd, mae'r twf diweddar yn nifer yr hyfforddeion yn newid y cymysgedd profiad mewn gwasanaethau ac yn cynyddu'r angen am oruchwyliaeth a chefnogaeth.

Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth hon i siapio ein Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy roi mwy o bwyslais ar gadw staff, capasiti addysgwyr, llwybrau hyfforddi hyblyg a thracio'n well sut mae hyfforddeion yn symud i gyflogaeth, fel bod buddsoddiad mewn addysg yn trosi'n effaith ar wasanaethau.

Er y bydd cynnal llwybrau addysg a hyfforddiant yn parhau i fod yn hanfodol, bydd y Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn yn canolbwyntio mwy ar gefnogi ein gweithlu presennol i sicrhau eu bod yn gallu cyflawni eu gwaith gorau a mwyaf cynhyrchiol.

Yn erbyn y gostyngiadau a ragwelir yn y boblogaeth oedran gweithio a chynnydd parhaus mewn anweithgarwch economaidd, rhaid i sefydliadau'r GIG barhau i ganolbwyntio ar ddulliau arloesol o recriwtio, cadw staff a llwybrau i gyflogaeth.

O ran cyflenwi, mae'r prinder byd-eang o weithwyr gofal iechyd yn parhau. Mae Sefydliad Gofal Iechyd y Byd (WHO) yn amcangyfrif diffyg o 10 miliwn o weithwyr iechyd erbyn 2030, ac mae prinder presennol ledled y DU mewn arbenigeddau allweddol (e.e. radioleg ac oncoleg) yn parhau i fod yn gyffredin yng Nghymru.

Mae cyfran staff GIG Cymru sy'n 50 oed a hŷn yn dal yn sylweddol, gyda data tueddiadau wedi'i ddiweddaru yn dangos cyfran sefydlog ond uchel o weithwyr hŷn ym mhroffil gweithlu 2025 a thystiolaeth gynyddol o newidiadau rhwng cenedlaethau mewn disgwyliadau, gan gynnwys mwy o alw am hyblygrwydd, gyrfaoedd portffolio a llwybrau dilyniant aflinol. Mae data diweddar hefyd wedi tynnu sylw at gynnydd parhaus yn y nifer sy'n dilyn hyfforddiant llai na hyfforddiant amser llawn.

Er gwaethaf heriau amlwg ar draws y system, mae adroddiadau gweithlu diweddaraf GIG Cymru (2024/25) yn dangos nifer o symudiadau cadarnhaol, gan gynnwys:

- Mwy o sefydlogrwydd yn y gweithlu
- Llai o swyddi nyrsio gwag
- Llai o wariant gan asiantaethau
- Trosiant sefydlog, yn enwedig ym maes nyrsio a bydwreigiaeth.

Mae absenoldeb oherwydd salwch yn dal yn her, gyda'r data swyddogol diweddaraf yn datgelu cyfradd absenoldeb oherwydd salwch gyfartalog o 6.2% hyd at fis Medi 2024, sydd ychydig yn is na'r flwyddyn flaenorol. Fodd bynnag, mae cyfraddau absenoldeb oherwydd salwch yn amrywio'n sylweddol yn ôl grŵp staff, o 10.4% ar gyfer cynorthwywyr gofal iechyd i tua 2.5% ar gyfer staff meddygol a deintyddol. Mae'r patrymau hyn yn atgyfnerthu risgiau parhaus o ran lludded, llesiant a chadw staff.

Mae cynnydd parhaus mewn comisiynau hyfforddi dros y blynyddoedd diwethaf wedi ehangu'r gweithlu iau. Er bod hyn yn cryfhau'r cyflenwad tymor hir, mae ein dadansoddiad

wedi nodi ‘bwlch profiad’ cynyddol wrth i staff sydd newydd gymhwyso gymryd lle gweithwyr profiadol, gan arwain at fwy o alw am oruchwylio a mentora ar draws gwasanaethau. Mae’r heriau hyn yn parhau i effeithio ar gynhyrchiant ac yn golygu bod angen buddsoddiad wedi’i dargedu mewn capasiti goruchwylio a rolau datblygu.

Er gwaethaf yr heriau, rydym yn parhau i nodi cyfleoedd sylweddol i alluogi GIG Cymru i drawsnewid ei weithlu, gan gynnwys:

- Disgwylir i fodelau rhanbarthol o ddarparu gwasanaethau ehangu, gan ddylanwadu ar sut mae’r gweithlu’n cael ei ddefnyddio.
- Y symudiad parhaus tuag at waith amlbroffesiwn, rolau newydd, sgiliau estynedig a llwybrau wedi’u hailddylunio.
- Bydd llwybrau mynediad newydd, ehangu dysgu seiliedig ar waith a llwybrau gyrfa aml-genhedlaeth yn hanfodol i gryfhau’r cyflenwad.

Arolwg Staff GIG Cymru

Mae canfyddiadau cenedlaethol Arolwg Staff GIG Cymru 2024 yn rhoi rhagor o wybodaeth am brofiad y gweithlu ar draws y system. Er bod gwelliannau wedi bod mewn meysydd fel diogelwch cleifion, gweithio hyblyg a chymorth arweinyddiaeth, mae ymgysylltiad cyffredinol wedi gostwng ychydig ac mae arwyddion o bwysau cynyddol ar forâl, gweithrediad tîm a chyfranogiad staff yn y broses o wneud penderfyniadau.

I AaGIC, mae hyn yn atgyfnerthu bod cynaliadwyedd y gweithlu yn dibynnu nid yn unig ar gyflenwad ond hefyd ar brofiad. Mae’n tanlinellu pwysigrwydd datblygu arweinyddiaeth, capasiti goruchwylio, llwybrau gyrfa a lles y gweithlu, fel bod buddsoddi mewn addysg a hyfforddiant yn troi’n weithlu sy’n gallu aros yn GIG Cymru ac sy’n barod i wneud hynny.

Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu

Mae adroddiad Safon Cydraddoldeb Hil y Gweithlu (WRES) ar gyfer GIG Cymru yn rhoi cipolwg pellach ar brofiad a chynnydd y gweithlu ar draws y system. Mae’r canfyddiadau’n dangos, er bod cyfran y staff o leiafrifoedd ethnig yn y gweithlu’n parhau i dyfu, bod gwahaniaethau o hyd o ran canlyniadau recriwtio, cynnydd a chynrychiolaeth uwch, gyda thystiolaeth o anghydraddoldebau parhaus mewn cyfraddau penodi a datblygu gyrfa.

Mae’r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at wahaniaethau parhaus ym mhrofiad staff, gan gynnwys lefelau uwch o wahaniaethu, bwlio a mynediad anghyfartal at gyfleoedd datblygu. Er bod rhai dangosyddion yn dangos gwelliant, mae’r canfyddiadau’n atgyfnerthu bod cynhwysiant, cynnydd teg a diwylliant cefnogol yn y gweithle yn dal yn hanfodol i sefydlogrwydd y gweithlu.

I AaGIC, mae hyn yn tanlinellu pwysigrwydd sicrhau bod addysg, datblygu arweinyddiaeth a chynllunio’r gweithlu yn cefnogi mynediad cyfartal at hyfforddiant, cynnydd a llwybrau gyrfa. Mae hefyd yn atgyfnerthu’r angen i gefnogi arweinyddiaeth gynhwysol a phrofiad y gweithlu, gan gydnabod bod cysylltiad agos rhwng cadw staff, cynhyrchiant ac ansawdd gwasanaethau a phrofiad staff o’r system.

Ffactorau Technegol

Glasbrint Digidol a Ffyrdd o Weithio

Mae Glasbrint Digidol GIG Cymru yn gosod y cyfeiriad ar gyfer sut bydd gwasanaethau digidol yn cefnogi darpariaeth gofal iechyd yn y dyfodol ac yn tynnu sylw at heriau ar draws y system, gan gynnwys llywodraethu tameidiog, amrywiad mewn gallu digidol a bylchau sgiliau'r gweithlu.
Ar gyfer AaGIC, mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i gysoni cynllunio'r gweithlu, addysg a datblygu arweinyddiaeth â model gweithredu digidol y dyfodol. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull mwy cyson ar draws y system o ymdrin â sgiliau a gallu digidol.

Mae rôl AaGIC o ran datblygu'r gweithlu yn golygu ei fod yn un o brif alluogwyr y Glasbrint, gan sicrhau bod buddsoddiad mewn gwasanaethau digidol yn cael ei gefnogi gan weithlu medrus, hyderus a hyblyg.

Blaenoriaethau Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT)

Mae GIG Cymru wedi sefydlu strwythur llywodraethu arweinyddiaeth diwygiedig ar gyfer Digidol, Data a Thechnoleg (DDaT) i gryfhau aliniad strategol, goruchwylio a chyflawni ar draws y system. Mae hyn yn cynnwys Bwrdd Arweinyddiaeth cenedlaethol, gyda chefnogaeth Bwrdd Cyflawni a nifer o grwpiau cynghori a galluogi, gan gynnwys Grŵp Galluoedd y Gweithlu.

Bwriad y trefniadau hyn yw darparu cyfeiriad cenedlaethol cliriach, gwella'r cydlynu rhwng sefydliadau, a sicrhau bod blaenoriaethau digidol yn cyd-fynd â thrawsnewid gwasanaethau a'r gweithlu ehangach. Mae'r model llywodraethu hefyd yn cefnogi dull mwy cyson, 'unwaith dros Gymru' o ddarpariaeth ddigidol.

Ar gyfer AaGIC, mae cymryd rhan yn y strwythur hwn yn sicrhau bod ystyriaethau'n ymwneud â'r gweithlu, addysg a gallu digidol yn cael eu gwreiddio yn y broses o wneud penderfyniadau cenedlaethol, gan gefnogi cysondeb rhwng buddsoddiad digidol a pharodrwydd y gweithlu.

Ffactorau Deddfwriaethol

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae AaGIC wedi sefydlu tri amcan llesiant sy'n cael eu cyflawni drwy ei Gynllun Tymor Canolig Integredig. Mae'r rhain yn cynnwys:

1. Gweithlu Hyblyg ac Addasadwy
Yn 2030, bydd staff GIG Cymru yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u harfogi â'r sgiliau i addasu i flaenoriaethau iechyd strategol sy'n esblygu. Bydd gweithlu aml-sgiliau, aml-genhedlaeth yn gweithio gyda'i gilydd i flaenoriaethu atal, gan greu dyfodol iachach i bawb a chryfhau iechyd.

2. Gwreiddio Arweinyddiaeth Dosturiol
Yn 2030, bydd arweinyddiaeth dosturiol yn siapio diwylliant GIG Cymru, lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a'u grymuso. Bydd arweinwyr ar bob lefel yn cael eu cefnogi i dyfu, gan greu gweithlu amrywiol, cynhwysol a chadarn sy'n meithrin cenedlaethau'r dyfodol ac yn sbarduno rhagoriaeth mewn gofal.

3. Diwylliant sy'n Cefnogi Llesiant
Yn 2030, byddwn yn arwain drwy esiampl wrth greu gweithle lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel, eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac yn cael eu grymuso. Drwy ddiwylliant o ddiogelwch seicolegol, cynhwysiant ac ymgysylltu, byddwn nid yn unig yn gwella llesiant a chadernid yn ein gweithlu, ond hefyd yn ysbrydoli ac yn dylanwadu ar newid cadarnhaol ar draws GIG Cymru.

Y Ddyletswydd Partneriaeth Gymdeithasol

Mae Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023 yn gyfraith yng Nghymru sydd wedi'i chynllunio i wella gwasanaethau cyhoeddus a llesiant drwy wreiddio gwaith teg a chyfrifoldeb cymdeithasol ym mhrosesau prynu'r sector cyhoeddus. Mae wedi arwain at greu Cyngor Partneriaeth Gymdeithasol i Weinidogion Cymru ymgynghori â chyflogwyr a chynrychiolwyr gweithwyr, ac mae'n ofynnol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys AaGIC, wneud y canlynol:

- Gweithio gydag undebau llafur/cynrychiolwyr staff i osod nodau llesiant a sicrhau consensws.
- Ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru wrth brynu nwyddau, gwasanaethau neu waith.
- Hyrwyddo 'gwaith teg' i sicrhau, er enghraifft, bod cadwyni cyflenwi yn gorfodi hawliau cyflogaeth ac yn darparu hyfforddiant.

Diwygio Addysg Feddygol y DU

Mae datblygiadau ledled y DU mewn addysg feddygol yn debygol o ddylanwadu ar lwybrau hyfforddi, dulliau asesu a disgwyliadau ynghylch hyblygrwydd mewn gyrfaoedd meddygol. Mae'n werth nodi bod Deddf Hyfforddiant Meddygol (Blaenoriaethu) 2026 - a gafodd Gydsyniad Brenhinol ar 5 Mawrth 2026 - yn mynnu bod graddedigion meddygol y DU a grwpiau blaenoriaeth penodol yn cael blaenoriaeth ar gyfer swyddi hyfforddiant Sylfaen ac Arbenigol y GIG. Mae'r gyfraith:

- Yn amcanu at leihau cystadleuaeth ddwys gan ymgeiswyr rhyngwladol, gan fynd i'r afael â'r argyfwng swyddi "dalfan" a blaenoriaethu talent lleol.
- Yn berthnasol ledled y DU, gan gwmpasu'r Rhaglen Sylfaen a hyfforddiant arbenigol ôl-raddedig.

Bydd angen i AaGIC ymateb i'r datblygiadau hyn - gan nodi'r disgwyliad y bydd yn berthnasol i gamau cynigion arbenigedd ar gyfer 2026 ac yn berthnasol i lunio rhestr fer a chynigion ar gyfer 2027 - gan sicrhau bod y trefniadau'n dal yn briodol ar gyfer cyd-destun Cymru. Felly, mae ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cynnwys camau gweithredu i fwrw ymlaen â'r gwaith o ddiwygio addysg a hyfforddiant meddygol yn unol â datblygiadau cenedlaethol ac anghenion y gweithlu.

Newidiadau i'r Rheoliadau

Mae AaGIC ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW) yn parhau i weithio'n agos ar ddatblygu sgiliau digidol a llythrennedd digidol, gan gydnabod bod continwwm yn bodoli rhwng y gweithlu ehangach sydd angen defnyddio mwy a mwy o offer a data digidol yn hyderus yn eu rolau (gyda chefnogaeth AaGIC), a'r gweithlu digidol, data a thechnoleg arbenigol (DDaT) sy'n gyfrifol am ddylunio, darparu a chynnal y gwasanaethau a'r llwyfannau digidol cenedlaethol sy'n galluogi gofal sydd wedi'i alluogi'n ddigidol (dan arweiniad Iechyd a Gofal Digidol Cymru).

Yn 2026/27 byddwn yn datblygu senarios yn y dyfodol i ddangos y newidiadau posibl i fodelau'r gweithlu, nid dim ond sgiliau, mewn gwasanaeth iechyd a gofal sydd wedi'i alluogi'n ddigidol. Bydd y rhain yn hanfodol wrth lywio'r gwaith o gynllunio'r gweithlu yn y dyfodol.

Bydd y gwaith hwn yn seiliedig ar well data a gwybodaeth am y gweithlu, gan gynnwys cysoni datblygiad yr ecosystem data yn AaGIC â chyfeiriad yr Adnodd Data Cenedlaethol (NDR). Bydd cryfhau setiau data'r gweithlu yn golygu bod modd modelu'r cyflenwad a'r galw o ran y gweithlu yn fwy cywir, cael dealltwriaeth gliriach o'r gymysgedd sgiliau a'r defnydd ohonynt, a gwerthuso'n well sut mae newid digidol yn effeithio ar gynhyrchiant a darparu gwasanaethau.

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gan adeiladu ar ein Cynllun Tymor Canolig Integredig 25/26, mae AaGIC yn cefnogi'r gwaith mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi bod yn ei wneud o ran atal ac iechyd y boblogaeth, fel rhan o'r Rhaglen Cymunedau drwy Ddylunio. Mae hyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod gan y gweithlu'r sgiliau cywir, wedi'u hategu gan yr adnoddau a'r cwricwlwm addysg a hyfforddiant cywir. Mewn ymateb i ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru ar gyfer 2025, byddwn hefyd yn ystyried datblygu ymgyrchoedd cenedlaethol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i gefnogi llesiant y gweithlu a mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol sy'n sbarduno absenoldeb oherwydd salwch.

Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru

Mae'r gweithgareddau ar y cyd â Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) yn cynnwys parhau i wella'r model cyflogwr arweiniol sengl, mynediad at ddata gweithlu craidd gan gynnwys ar gyfer contractwyr annibynnol, sicrhau bod y prosesau symleiddio a bwrsari myfyrwyr yn ymateb i newidiadau a gofynion newydd, a chysylltu'n agosach ynghylch penderfyniadau ynghylch cyflenwad y gweithlu, fel recriwtio rhyngwladol.

Bydd maes newydd o gydweithio yn ymwneud â gweithredu system Atebion Gweithlu'r Dyfodol, gan sicrhau bod rolau'n glir a bod y manteision mwyaf posibl yn cael eu cyflawni.

Perfformiad a Gwella'r GIG

Mae ffyrdd newydd o weithio a threfniadau sefydliadol yn cael eu sefydlu ym Mherfformiad a Gwella'r GIG (NHS P&I), a byddwn yn adolygu ein mecanweithiau presennol ar gyfer gweithio gyda rhaglenni cenedlaethol a rhwydweithiau clinigol er mwyn nodi blaenoriaethau cenedlaethol allweddol ar gyfer y gweithlu. Byddwn yn parhau i gefnogi Perfformiad a Gwella'r GIG i ddatblygu ei swyddogaeth cyflawni'r gweithlu drwy ddarparu data a gwybodaeth am y gweithlu.

Byddwn hefyd yn cydweithio â'r arweinwyr ansawdd mewn perthynas â rhaglenni gwaith allweddol fel asesiad sicrwydd MatNeo, gweithredu'r system rheoli ansawdd a hyfforddiant sgiliau gwella ar gyfer y gweithlu iechyd a gofal.

Gofal Cymdeithasol Cymru

Mae'r ddau sefydliad yn parhau i ddatblygu cynlluniau a rhaglenni gwaith o dan ymbarél y Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cyd-fynd â'r saith thema allweddol. Yn benodol, byddwn yn parhau i weithio'n agos i ddatblygu cam nesaf y cynllun gweithlu iechyd meddwl, a byddwn yn gweithio'n agos gyda'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol. Ddechrau 2026/27 byddwn yn adolygu cynlluniau unigol ac yn nodi unrhyw feysydd ychwanegol ar gyfer cydweithio sy'n cyd-fynd â datblygu gweithlu integredig yn y dyfodol.

Medr: Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil

Mae AaGIC wedi gweithio gyda Medr ers ei sefydlu yn 2024, gan barhau â pherthynas a oedd ar waith gyda'r sefydliad a'i rhagflaenodd, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC).

Mae hyn wedi canolbwyntio ar rannu data i gefnogi dull cyson o sicrhau ansawdd rhaglenni a gomisiynir gan AaGIC mewn darparwyr addysg ledled Cymru, ac mae'n cefnogi cysoni gofynion asesu perfformiad a chynllunio gweithredu i ddarparu eglurder a chysondeb o ran gofynion, a lleihau dyblygu.

Mae trafodaethau'n mynd rhagddynt i gefnogi cydweithio ehangach, er enghraifft mewn perthynas â llwybrau i mewn i addysg a thrwy addysg i ehangu cyfranogiad a chynyddu prentisiaethau a chyfleoedd dysgu seiliedig ar waith, i gefnogi amrywiaeth eang o raglenni.

Pennod 5:
Rhaglenni Gwaith Cyflawni Craidd ac Ategol

GIG CYMRU NHS WALES
Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Mae Pennod 5 yn canolbwyntio ar ein Rhaglenni Cyflawni Craidd ac Ategol ar gyfer 2026-27 i hwyluso dealltwriaeth lawn o'n rôl a'n swyddogaeth yn GIG Cymru.



Rhaglenni Gwaith Cyflawni Craidd

Ar gyfer 2026-27, mae ein Rhaglenni Cyflawni Craidd yn cynnwys:

Parhau i adolygu ac ailgomisiynu addysg a hyfforddiant sy'n seiliedig ar drefniadau cytundebol gan weithio gydag addysg uwch ac addysg bellach

Mae'n hanfodol bod addysg gofal iechyd yn parhau i gyd-fynd ag anghenion y gweithlu, trawsnewid gwasanaethau a blaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gofal yn y gymuned, atal, iechyd y boblogaeth, arloesi digidol a datblygu rolau clinigol uwch. Nod y rhaglen waith hon yw moderneiddio'r ddarpariaeth addysg drwy brosesau comisiynu, caffael a llywodraethu cadarn gyda Sefydliadau Addysg Uwch sy'n sicrhau'r gwerth gorau am arian ar yr un pryd â gwella mynediad at gyfleoedd dysgu hyblyg, cyfunol ac o ansawdd uchel.

Parhau i addysgu, hyfforddi a datblygu'r gweithlu deintyddol yng Nghymru, gan sicrhau ei fod yn addas ar gyfer y dyfodol ac yn cyd-fynd â newidiadau strategol mewn trefniadau contract, hyfforddiant, gwasanaeth ac anghenion cleifion

Gan adeiladu ar Gynllun Strategol y Gweithlu Deintyddol, nod AaGIC yw cefnogi'r gwaith o gadw'r gweithlu, yn enwedig ymysg nyrsys deintyddol, moderneiddio llwybrau hyfforddi, a datblygu cyfleoedd addysg a mentora arloesol. Mae'r rhaglen yn cyd-fynd yn agos â'r bwriad i ddiwygio contractau deintyddol a thrawsnewid y system iechyd yn ehangach, gyda phwyslais ar greu gweithlu sy'n gallu darparu gofal o ansawdd uchel mewn lleoliadau sylfaenol a chymunedol.

Bydd y rhaglen yn parhau i gryfhau'r broses o recriwtio a chadw'r gweithlu deintyddol, cynyddu hyder gweithwyr deintyddol proffesiynol, ehangu mynediad at gyfleoedd dysgu hyblyg a hyfforddiant ôl-raddedig, a sicrhau bod gan y gweithlu'r wybodaeth, y sgiliau a'r galluoedd sydd eu hangen i ddiwallu anghenion newidiol cleifion a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd y geg. Yn y pen draw, mae ymdrechion AaGIC yn ymwneud â darparu gweithlu deintyddol cynaliadwy, medrus ac addasadwy sy'n gallu gwella mynediad at wasanaethau deintyddol y GIG a chefnogi gofal yn y gymuned sy'n canolbwyntio ar atal yn nes at adref.

Erbyn mis Mawrth 2027, rhoi Blwyddyn 3 y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth (SPWP) ar waith yn llawn, gan wreiddio presgripsiynu annibynnol, nodi llwybrau ac integreiddio sgiliau clinigol uwch mewn ymarfer arferol ar draws pob lleoliad

Mae'r rhaglenni gwaith hyn yn canolbwyntio ar drawsnewid y gweithlu fferylliaeth yng Nghymru drwy wreiddio presgripsiynu annibynnol, cyflwyno cymwyseddau, ac ymarfer clinigol uwch mewn gofal bob dydd. Mae'n adeiladu ar y Cynllun Strategol ar gyfer y Gweithlu Fferylliaeth (SPWP) drwy gryfhau llwybrau addysg a hyfforddiant o astudiaethau israddedig i ymarfer uwch, ar yr un pryd â gwella gwybodaeth am y gweithlu a chynllunio'r gweithlu. Nod y rhaglen yw sicrhau bod fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol yn meddu ar y sgiliau, y gefnogaeth a'r cyfleoedd datblygu proffesiynol sydd eu hangen arnynt i ymgymryd â chyfrifoldebau clinigol estynedig ac ymateb i ofynion gofal iechyd sy'n esblygu.

Erbyn 2029, yr uchelgais yw cael gweithlu fferylliaeth cynaliadwy mwy clinigol alluog, sy'n cael ei lywio gan ddata ac sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at wella gofal i gleifion a darparu gwasanaethau ledled Cymru. Disgwylir y bydd mwy o ddefnydd o bresgripsiynu annibynnol, llwybrau cyflwyno cymwyseddau cliriach a llif cryfach o weithlu yn gwella mynediad at driniaeth, yn lleihau'r pwysau ar rannau eraill o'r system iechyd ac yn cefnogi gofal yn nes at adref. Bydd y rhaglen hefyd yn helpu i ddenu, datblygu a chadw gweithwyr proffesiynol ym maes fferylliaeth, gan sicrhau gweithlu cadarn sy'n gallu diwallu anghenion iechyd y boblogaeth yn y dyfodol ar yr un pryd â darparu gofal diogel o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Parhau i roi cymorth effeithiol ar waith ar gyfer ailddilysu, arfarnu a DPP drwy'r Uned Cymorth Ailddilysu ar ran GIG Cymru

Mae'n ofynnol i AaGIC gynnal a gwella'r systemau a'r cymorth sy'n sail i arfarnu meddygol, ailddilysu a datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) ar gyfer meddygon ledled Cymru. Drwy'r Uned Cymorth Ailddilysu (RSU), bydd AaGIC yn parhau i ddarparu gwasanaethau arfarnu ac ailddilysu o ansawdd uchel wrth baratoi ar gyfer cyflwyno Codi, llwyfan digidol cenedlaethol newydd a fydd yn disodli'r systemau MARS ac ORBIT360 presennol. Mae'r gwaith wedi'i gynllunio i sicrhau bod gan feddygon fynediad at offer effeithiol, arweiniad a chyfleoedd datblygu sy'n cefnogi safonau proffesiynol a dysgu gydol oes.

Y canlyniad disgwyliedig yw system ail-ddilysu ac arfarnu symlach a chadarnach sy'n cefnogi clinigwyr a sefydliadau'r GIG. Erbyn 2029, bydd y llwyfan digidol newydd wedi'i wreiddio'n llawn, gan ddarparu data dibynadwy, profiad gwell i ddefnyddwyr a phrosesau sicrwydd cryfach. Ochr yn ochr â hyn, bydd buddsoddiad parhaus mewn rhaglenni arfarnu, DPP a datblygu arweinyddiaeth yn helpu i gynnal gweithlu meddygol medrus a myfyriol, gan gyfrannu at safonau uchel o ymarfer clinigol, diogelwch cleifion ac ansawdd gofal ledled Cymru.

Cefnogi'r gwaith o ddarparu gwell gwasanaethau gofal llygaid drwy ehangu sgiliau clinigol ar gyfer optometryddion

Bydd AaGIC yn parhau i gryfhau ac ehangu gwasanaethau gofal llygaid gwell yng Nghymru drwy gynyddu cyfleoedd hyfforddi a lleoliadau o ansawdd uchel ym maes optometreg gymunedol. Gan adeiladu ar lwyddiant y model Ymarfer Hyfforddi Uwch (ATP), mae'r rhaglen waith hon yn ceisio cynyddu capasiti lleoliadau, yn enwedig mewn ardaloedd nad ydynt yn cael eu gwasanaethu'n ddigonol, tra'n ehangu cyfleoedd y tu hwnt i bresgripsiynu annibynnol i gynnwys llwybrau gofal llygaid arbenigol a dysgu rhyngbroffesiynol. Un ffocws allweddol yw creu amgylchedd dysgu cefnogol i hyfforddeion a goruchwylwyr, gan helpu ymarferwyr i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i ddarparu gofal llygaid uwch yn nes at gartrefi cleifion.

Yn y tymor hwy, nod y fenter yw creu gweithlu gofal llygaid mwy hygyrch a chynaliadwy drwy leihau tagfeydd hyfforddiant, gwella tegwch daearyddol a chynyddu nifer y clinigwyr sy'n gymwys i ddarparu gwasanaethau gwell. Disgwylir i'r broses o ehangu'r ATPs gefnogi cynnydd cyflymach drwy hyfforddiant, cryfhau'r cydweithio rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd, a lleihau'r pwysau ar wasanaethau llygaid mewn ysbytai. Yn y pen draw, bydd y rhaglen yn helpu i wella mynediad at ofal llygaid amserol, yn cefnogi'r gwaith o gadw a datblygu'r gweithlu, ac yn sicrhau bod cleifion yn elwa o wasanaethau o ansawdd uchel sy'n cael eu darparu yn eu cymunedau lleol.

Cryfhau ansawdd a gwelliant parhaus addysg a hyfforddiant ar draws AaGIC drwy ddefnyddio System Rheoli Ansawdd AaGIC yn effeithiol

Mae cylch gwaith AaGIC yn mynnu ei fod yn monitro, yn deall ac yn gwella ansawdd addysg a hyfforddiant ledled Cymru. I'r perwyl hwn, mae'n ceisio dod â gwybodaeth o amrywiaeth eang o ffynonellau at ei gilydd - gan gynnwys adborth dysgwyr, gwybodaeth gan hyfforddwyr, adolygiadau o raglenni a gweithgareddau monitro ansawdd - i greu System Rheoli Ansawdd (QMS) sy'n fwy cydlynol. Drwy greu darlun sefydliadol cliriach o'r amgylchedd dysgu, nod y rhaglen waith hon yw nodi materion sy'n dod i'r amlwg yn gynharach, cefnogi penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a sbarduno gwelliant parhaus ar draws yr holl grwpiau proffesiynol.

Yr uchelgais hirdymor yw sefydlu dull rheoli ansawdd aeddfed a chwbl integredig sy'n darparu trosolwg cyson o ansawdd addysg a hyfforddiant ar draws AaGIC a GIG Cymru. Bydd hyn yn golygu bod modd canfod a datrys risgiau'n gyflymach, rhoi sicrwydd sefydliadol cryfach a thargedu gweithgareddau gwella'n well, gan wella profiad dysgwyr, hyfforddwyr a darparwyr addysg ar yr un pryd. Yn y pen draw, bydd y rhaglen yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu medrus iawn drwy sicrhau bod amgylcheddau addysg a hyfforddiant yn parhau i fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion y gweithlu a'r gwasanaeth yn y dyfodol.

Gweithredu rhaglen gwelliant parhaus ar gyfer amgylcheddau hyfforddiant ac addysg sy'n seiliedig ar ymarfer

Mae'r rhaglen waith hon yn ymwneud ag esblygiad addysg seiliedig ar ymarfer fel bod myfyrwyr gofal iechyd yn cael mwy o gysylltiad â'r lleoliadau a'r modelau gofal a fydd yn siapio gweithlu GIG Cymru yn y dyfodol. Bydd y rhaglen yn ehangu ac yn cryfhau cyfleoedd ar leoliad mewn gofal sylfaenol a chymunedol, yn cynyddu dysgu rhyngbroffesiynol, ac yn sicrhau dull mwy cyson a chynaliadwy o ddarparu lleoliadau ledled Cymru. Ochr yn ochr â chynyddu capasiti, bydd y gwaith yn canolbwyntio ar wella ansawdd lleoliadau, rhoi mwy o lais i addysgwyr a dysgwyr, a gwreiddio ystyriaethau diwylliannol a'r iaith Gymraeg yn y profiad dysgu.

Erbyn 2029, bydd myfyrwyr ar draws yr holl broffesiynau gofal iechyd a gomisiynir yn treulio cyfran sylweddol fwy o'u hyfforddiant mewn amgylcheddau cymunedol, gan eu helpu i ddatblygu'r sgiliau, yr ymddygiadau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gofal ataliol a gofal sy'n seiliedig ar leoedd. Disgwylir i'r rhaglen hefyd gryfhau ymwybyddiaeth o iechyd meddwl, ehangu amlygiad i arweinyddiaeth system ac arloesedd, a chreu profiadau dysgu sy'n adlewyrchu cyflenwi gwasanaethau cyfoes yn well. Wrth wneud hynny, bydd yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithlu mwy hyblyg a hyderus sy'n barod ar gyfer y dyfodol ac sy'n gallu diwallu anghenion newidiol poblogaeth Cymru.

Parhau i ddarparu'r rhaglen Cynllunio ar gyfer Olyniaeth a Datblygu Cenedlaethol ar gyfer Uwch Arweinwyr

Mae'n hanfodol bod gan GIG Cymru lif cryf a chynaliadwy o uwch arweinwyr i'r dyfodol. I'r perwyl hwn, bydd AaGIC yn cynnal dull cenedlaethol cydlynol o gynllunio ar gyfer olyniaeth, rheoli talent a datblygu arweinyddiaeth. Bydd y rhaglen hon yn adnewyddu Strategaeth Cynllunio ar gyfer Olyniaeth a Rheoli Talent GIG Cymru, yn cryfhau llwybrau dilyniant i rolau gweithredol a phrif weithredwyr, ac yn parhau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu arweinyddiaeth drwy raglenni talent sefydledig, cynigion cynefino a chyfleoedd datblygu ar lefel weithredol. Rhoddir pwyslais allweddol ar greu llwybrau teg a chynhwysol sy'n gwella cynrychiolaeth ac yn ehangu mynediad at rolau arwain uwch ar draws y system.

Uchelgais AaGIC yw darparu fframwaith cynllunio ar gyfer olyniaeth aeddfed sy'n rhoi mwy o amlygrwydd i barodrwydd i arwain, gallu a chynnydd ar draws GIG Cymru. Drwy lifau cryfach o dalent, safonau arweinyddiaeth y cytunwyd arnynt yn genedlaethol a gwell gwybodaeth am y gweithlu, nod y rhaglen yw gwella cydnerthedd sefydliadol a pharhad arweinyddiaeth ar yr un pryd â meithrin diwylliannau arweinyddiaeth mwy amrywiol a thosturiol sy'n canolbwyntio ar systemau. Yn y pen draw, bydd hyn yn helpu i sicrhau bod gan GIG Cymru y capasiti arwain uwch sydd ei angen i fynd i'r afael â heriau yn y dyfodol a gwella gwasanaethau yn y tymor hir.

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr i gefnogi'r gwaith o ddiwygio rheoleiddio, a rhoi rolau newydd a rolau newidiol ar waith, gan gynnwys MAPs, RNA a CAAPs

Yn ystod 2026-29, bydd AaGIC yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno rolau gofal iechyd newydd ac esblygol yng Nghymru yn ddiogel ac yn effeithiol, yn enwedig Proffesiynau Cydymaith Meddygol (MAPs) fel Cymdeithion Meddygol (PAs) a Chymdeithion Anesthesia (AAs), ochr yn ochr â'r posibilrwydd o gyflwyno rôl Cydymaith Nyrsio Cofrestredig (RNA). Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru a rheoleiddwyr proffesiynol, bydd AaGIC yn arwain y gwaith o ddatblygu trefniadau addysg, goruchwylio a llywodraethu i sicrhau bod y rolau hyn yn cael eu hintegreiddio'n gyson ar draws GIG Cymru. Mae blaenoriaethau allweddol yn cynnwys sefydlu canllawiau goruchwylio cenedlaethol, cryfhau prosesau arfarnu, gwreiddio fframweithiau llywodraethu a pharatoi'r seilwaith addysg a lleoliadau sydd ei angen i gefnogi twf y gweithlu yn y dyfodol. Y canlyniad a fwriedir yw gweithlu sy'n cael ei gefnogi'n dda ac sy'n cael ei lywodraethu'n glir lle mae rolau proffesiynol newydd yn cyfrannu'n ddiogel ac yn effeithiol at ddarparu gwasanaethau.

Gallai nifer o heriau effeithio ar gyflawni - mae llawer o'r rhaglen yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru, datblygiadau rheoleiddio ac, yn achos RNAs, newidiadau deddfwriaethol i'r Gorchymyn Nyrsio a Bydwreigiaeth. Mae risg hefyd y gallai amrywiad yng nghapasiti cyflogwyr, mabwysiadu trefniadau llywodraethu'n anghyson, argaeledd data cyfyngedig a phwysau ar oruchwylwyr arafu'r broses weithredu neu greu gwahaniaethau o ran sut mae rolau'n cael eu defnyddio ledled Cymru. Ar ben hynny, gall trafodaethau cenedlaethol parhaus ynghylch MAPs, gan gynnwys cyd-destun polisi ehangach y DU a'r heriau cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag argymhellion Adolygiad Leng, ddylanwadu ar gyflymder a chyfeiriad y rhaglen.

Parhau i weithredu'r fframwaith strategol ar gyfer Gyrfaoedd GIG Cymru

Nod Fframwaith Strategol Gyrfaoedd GIG Cymru yw cryfhau atyniad, hygyrchedd ac ymwybyddiaeth o yrfaoedd ar draws y sector iechyd. Drwy gyflawni'r Fframwaith, bydd AaGIC yn ehangu gwybodaeth ac adnoddau gyrfaoedd, yn cynyddu cyfleoedd ymgysylltu ag ysgolion, colegau a chymunedau, ac yn defnyddio ymgyrchoedd wedi'u targedu i godi proffil gyrfaoedd ym maes iechyd, yn enwedig mewn meysydd sy'n wynebu prinder gweithlu. Mae hefyd yn ceisio ehangu mynediad at yrfaoedd yn y GIG drwy leihau rhwystrau i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, cefnogi datblygiad gyrfa staff presennol, a datblygu llwybrau gyrfa cliriach drwy fframweithiau gyrfa amlbroffesiwn sy'n canolbwyntio ar y dyfodol. Ochr yn ochr â hyn, bydd gwaith yn parhau i wella adnoddau gyrfaoedd digidol a pharatoi ar gyfer datblygu llwyfan Tregyrfa yn y dyfodol.

Yr uchelgais hirdymor yw gosod iechyd a gofal cymdeithasol fel cyrchfan gyrfa o ddewis yng Nghymru, wedi'i chefnogi gan wasanaeth gyrfaoedd modern, digidol yn gyntaf sy'n darparu arweiniad gydol oes a chymorth wedi'i bersonoli. Erbyn 2029, nod y rhaglen yw darparu gwybodaeth fwy hygyrch a dibynadwy am yrfaoedd, partneriaethau cryfach ar draws gwasanaethau addysg a gyrfaoedd, mwy o ddefnydd o offer digidol a dadansoddeg, a mwy o fynediad at fentoriaid a llysgenhadon. Yn y pen draw, bwriad hyn yw dylanwadu ar ddewisiadau gyrfa, gwella recriwtio i broffesiynau iechyd, cryfhau llif cyflenwi'r gweithlu a sicrhau bod mwy o bobl yn cael eu hannog i ddechrau, datblygu a chynnal gyrfaoedd yn GIG Cymru.

Darparu rhaglen i gefnogi'r Proffesiwn Pobl yng Nghymru

Mae'r rhaglen waith hon yn ymwneud ag ymdrechion AaGIC i ddatblygu gweithlu Proffesiwn Pobl cryfach, mwy cysylltiedig a hyderus yn broffesiynol ar draws GIG Cymru. Gan adeiladu ar y sylfeini a sefydlwyd ers 2021, bydd y rhaglen yn gwreiddio Map Proffesiwn Pobl GIG Cymru fel y fframwaith cenedlaethol ar gyfer datblygu gyrfa, gan helpu staff i ddeall llwybrau gyrfa yn well, nodi anghenion datblygu a llywio cyfleoedd i gamu ymlaen. Ochr yn ochr â hyn, bydd AaGIC yn darparu cynnig datblygu wedi'i dargedu ar gyfer uwch arweinwyr y gweithlu a datblygu sefydliadol, gan ddefnyddio gwybodaeth am y gweithlu a gwybodaeth broffesiynol i gryfhau gallu arwain a chefnogi trawsnewid ar draws y system.

Y canlyniad a fwriedir yw Proffesiwn Pobl medrus iawn sydd wedi'i alinio'n genedlaethol ac sy'n cael ei gydnabod am ei effaith ar lesiant y gweithlu, perfformiad sefydliadol a gwella gwasanaethau. Erbyn 2029, nod GIG Cymru yw cael safonau proffesiynol cyson, llwybrau gyrfa cliriach a mwy cynhwysol, trefniadau cynllunio olyniaeth cryfach a gwell capasiti arweinyddiaeth ar draws y proffesiwn. Drwy gyflwyno adnoddau datblygu gyrfa cenedlaethol, mwy o fynediad at ddysgu a mentora, a dull mwy strategol o reoli talent, bydd y rhaglen yn helpu i greu gweithlu hyderus sy'n canolbwyntio ar y dyfodol ac sy'n gallu darparu gwasanaethau pobl o ansawdd uchel sy'n cefnogi staff y GIG a'r cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu.

Rhaglenni Gwaith Ategol

Bydd cyflawni ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei alluogi gan amrywiaeth o swyddogaethau ategol gan gynnwys cyllid, pobl a chyfleusterau, cyfathrebu, digidol, cynllunio a pherfformiad. Lle mae'r rhain yn ganolbwynt i gyflawniadau sylweddol yn ystod y flwyddyn, maent yn ffocws i'r Rhaglenni Ategol, sy'n cynnwys meysydd gwaith datblygu allweddol a fydd yn hwyluso'r gwaith o gyflawni nifer o Amcanion Datblygu a Rhaglenni Cyflawni Craidd. Ar gyfer 2026-27, mae ein rhaglenni ategol yn cynnwys:

Cynllun Gweithlu Mewnol AaGIC

Un o'r camau gweithredu yn ein Strategaeth Pobl a Datblygu Sefydliadol oedd datblygu cynllun gweithlu strategol ar gyfer AaGIC i sicrhau bod ein hadnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol ar draws AaGIC i gyflawni ein hymrwymiadau datblygu a gweithredol dros y blynyddoedd nesaf.

Mae maint ein gweithlu wedi aros yn gymharol sefydlog dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn cydnabod, yng ngoleuni'r heriau ariannol presennol ar draws y system, bod angen i'n pwyslais wrth symud ymlaen fod ar sicrhau'r gwerth a'r cynhyrchiant gorau posibl. Felly, bydd y cynllun gweithlu mewnol yn ceisio cefnogi ein pobl i wneud eu gwaith gorau, gan ganolbwyntio ar sicrhau bod ein pobl yn y lleoedd iawn, gyda'r sgiliau iawn ac ar yr adeg iawn, a'n bod yn ddigon hyblyg ac ystwyth i sicrhau cydbwysedd o ran llwyth gwaith, ansawdd a gwerth am arian.

Model Gweithredu AaGIC

Mae wyth mlynedd wedi mynd heibio bellach ers i ni gael ein sefydlu, ac yn ystod y cyfnod hwnnw rydym wedi ymgymryd â nifer o swyddogaethau a meysydd cyfrifoldeb newydd. Yn ystod 2025-26, fe wnaethom ddechrau adolygu ein ffyrdd o weithio i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn ystwyth ac yn hyblyg i newidiadau yn yr amgylchedd ac yn gallu sicrhau'r ddarpariaeth orau bosibl.

Bydd yr adolygiad hwn yn parhau drwy'r flwyddyn nesaf gyda'r nod o nodi Model Gweithredu targed newydd a chynllun gweithredu manwl yn ystod 2026-27. Bydd y broses weithredu'n cael ei hwyluso gan Dîm Cyd-ddylunio sy'n cynnwys cydweithwyr o bob rhan o AaGIC; bydd safbwyntiau rhanddeiliaid hefyd yn cael eu ceisio fel rhan o'r broses hon.

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, mae ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2023-27 (SEP) yn nodi sut byddwn yn cyflawni ein Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus ac yn hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar draws ein rôl fel cyflogwr a galluogwr system.

Yn 2026-27, byddwn yn sicrhau bod ystyriaethau cydraddoldeb yn cael eu hadlewyrchu mewn arweinyddiaeth, diwylliant sefydliadol, blaenoriaethau'r gweithlu a chynllunio gwasanaethau. Byddwn yn rhoi proses Sicrwydd Polisi Cynllun Cydraddoldeb Strategol Llywodraeth Cymru ar waith, gan roi sicrwydd yn ystod y flwyddyn yn erbyn cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant cenedlaethol ac yn cefnogi cydymffurfiad â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Bydd y ddarpariaeth yn canolbwyntio ar ddangos tystiolaeth o gynnydd drwy ddata, meincnodi a dysgu, ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer yr adolygiad statudol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn 2027.

Fframwaith Strategol Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Nod AaGIC yw cael swyddogaeth gyfathrebu ac ymgysylltu aeddfed sy'n seiliedig ar ddata ac sy'n cefnogi dyletswyddau statudol a blaenoriaethau strategol yn weithredol. Bydd rhanddeiliaid yn deall rôl, gwerth ac effaith AaGIC yn glir; bydd ymgysylltu'n cael ei dargedu a'i arwain gan ddealltwriaeth, a'i gefnogi gan fynediad digidol di-dor; bydd gallu cyfathrebu ac ymgysylltu yn cael ei wreiddio ar draws y sefydliad.

Ein hamcan ar gyfer 2026-27 yw canolbwyntio ar gyflawni, cydgrynhoi a gwelliannau sy'n seiliedig ar ddealltwriaeth, gyda chamau gweithredu penodol yn cynnwys:

- Datblygu un Cynllun Gwaith Cyfathrebu ac Ymgysylltu Corfforaethol wedi'i flaenoriaethu i sbarduno gweithgarwch cyfathrebu, cyfryngau, digidol a rhanddeiliaid strategol effaith uchel i hyrwyddo mynediad at wasanaethau AaGIC.
- Datblygu cam tri'r wefan, ail-dendro Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM) a chwmpasu digidol yn y dyfodol, ochr yn ochr â gwelliannau i brofiad defnyddwyr ac integreiddio digidol.
- Arolwg ar draws rhanddeiliaid i feincnodi canfyddiadau a dealltwriaeth o AaGIC, wedi'i gefnogi gan fapio a dadansoddi rhanddeiliaid wedi'i dargedu i gryfhau cysylltiadau strategol allweddol.

Strategaeth Data a Digidol

Mae'r Strategaeth Data a Digidol a gymeradwywyd gan y Bwrdd yn 2023 yn amlinellu sut byddwn yn cyflawni newid trawsnewidiol drwy dechnoleg arloesol a gwell gwybodaeth a mewnwelediadau data, gan ein cefnogi i gyflawni ein swyddogaethau statudol i'r eithaf. Mae'r Strategaeth yn nodi sut y byddwn yn defnyddio atebion digidol, data a dadansoddeg i gryfhau'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau statudol a chefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar draws GIG Cymru. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau digidol o ansawdd uchel, datblygu gweithlu sydd â sgiliau digidol, gwella dysgu digidol, sefydlu gwybodaeth ddiogel a dibynadwy am y gweithlu, a chryfhau seiberddiogelwch a llywodraethiant gwybodaeth.

Yn 2026-27, byddwn yn parhau i foderneiddio a gwella llwyfannau digidol craidd. Byddwn yn meithrin gallu digidol, data a deallusrwydd artiffisial ar draws y sefydliad ac yn bwrw ymlaen â cham nesaf Y Tŷ Dysgu i gryfhau ecosystem dysgu digidol Unwaith i Gymru. Byddwn yn sefydlu'r Ganolfan Gwybodaeth a Chynllunio'r Gweithlu i ddod â data, dadansoddeg a modelu'r gweithlu at ei gilydd mewn un swyddogaeth genedlaethol, gan ddarparu dangosfyrddau dibynadwy ac allbynnau modelu i lywio penderfyniadau'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant a chynllunio'r gweithlu. Byddwn hefyd yn cryfhau seiberddiogelwch a llywodraethiant gwybodaeth drwy fonitro gwell, adroddiadau cydymffurfio a chyflwyniadau sicrwydd cenedlaethol.

Adolygiad Llinell Sylfaen Llywodraeth Cymru

Mae Llythyr Cylch Gwaith AaGIC 2026-27 yn mynnu bod y sefydliad yn cwblhau adolygiad llinell sylfaen yn ystod Chwarter 1. Bydd yr adolygiad hwn - a fydd yn cael ei gyflwyno erbyn 30 Mehefin 2026 - yn ceisio nodi opsiynau a dewisiadau ar gyfer unrhyw arbedion pellach y gellir eu gwireddu yn ystod 2026-27 ac sy'n mynd y tu hwnt i sicrhau mantol ariannol.

Pennod 6:
Cynllun Ariannol



GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Mae Pennod 6 yn disgrifio ein cynllun ariannol, yn nodi sut y byddwn yn dangos gwerth a chynaliadwyedd, ac yn cadarnhau y byddwn yn cyflawni cynllun ariannol wedi'i fantoli yn 2026-27.



Cynllun Ariannol

Cynllun ariannol refeniw: dull gweithredu a risgiau a rhagdybiaethau allweddol

Mae'r cynllun ariannol refeniw wedi cael ei ddatblygu ar ôl cadarnhau'r dyraniad refeniw ar gyfer 2026-27 yn y Llythyr Cylch Gwaith, a ddaeth i law ar 10 Mawrth 2026. Mae proses y Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi blaenoriaethu'r meysydd blaenoriaeth strategol a'r camau gweithredu hynny yn y Llythyr Cylch Gwaith a chyflawni swyddogaethau statudol a rheoleiddiol allweddol, ac wedi asesu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r rhain yn ystod y flwyddyn o fewn y cyllid cyffredinol sydd ar gael.

Mae gan AaGIC gyllideb refeniw flynyddol gychwynnol o £389.858m ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27. Ar ben hynny, mae rhai meysydd lle mae dyraniadau ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn cael eu rhagweld / wedi eu cadarnhau, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y tabl dyraniadau ariannol.

Er nad yw'r dyraniad refeniw cychwynnol craidd wedi cael ei gynyddu, bydd costau ychwanegol yn codi oherwydd penderfyniadau polisi Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dileu'r gyfradd is o fenthyciad / bwrsari cynhaliaeth o fis Medi 2024 sydd wedi arwain at fyfyrwyr ychwanegol yn dewis manteisio ar y fwrsariaeth. Bydd cynnydd cynyddrannol mewn costau wrth i bob carfan newydd o fyfyrwyr ddod yn gymwys.
- • Cynyddu'r cap ar ffioedd dysgu ar gyfer cyrsiau israddedig i £9,790 (Medi 2026).
- • Cost heb ei hariannu ar gyfer cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr.
- • Cynnydd yn y Ffi Sgiliau Mewnfudo / Tystysgrifau Nawdd - mae Llywodraeth y DU wedi cynyddu costau dros 30% o fis Rhagfyr 2025 ymlaen.

Amcangyfrifir bod cyfanswm y cynnydd hwn mewn costau yn dros £5m a bydd i bob pwrpas yn lleihau'r cyllid sydd ar gael mewn termau real. Mewn blynyddoedd blaenorol, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y risg ariannol mewn perthynas â newidiadau polisi mewn perthynas â'r fwrsariaeth a ffioedd dysgu ac wedi cytuno bod AaGIC yn defnyddio unrhyw lithriant ariannol yn ystod y flwyddyn i liniaru neu ddarparu cymorth i AaGIC i reoli unrhyw risg ariannol.

Mae'r rhan fwyaf o gynllun ariannol AaGIC wedi'i neilltuo ar gyfer y Cynllun Addysg a Hyfforddiant (tua 85% o gyfanswm y gwariant). Mae'r cynllun ariannol yn tybio y bydd addysg a hyfforddiant yn cael eu comisiynu ar y lefel a ragdybir o fewn y cyllid y cytunwyd arno wrth gymeradwyo'r ETP ar gyfer 2026-27. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, bydd hyn naill ai'n golygu cynnal niferoedd hyfforddiant ar y lefelau presennol neu gomisiynu lleoedd i israddedigion ar y lefel sylfaenol a ganiateir o dan y trefniadau contract presennol. Mae'r cynllun ariannol hefyd yn gwneud rhagdybiaethau ynghylch cyfraddau gadael (myfyrwyr yn gadael cyrsiau) a chyfraddau bwrsariaeth cyfartalog - mae cyfraddau gwirioneddol yn debygol o fod yn wahanol a bydd angen eu rheoli o fewn cyfanswm y cyllid sydd ar gael.

Bydd y cynllun ariannol hefyd yn mynnu bod pwysau costau chwyddiant eraill yn cael eu rheoli o fewn y dyraniad cyllid cyffredinol - e.e. chwyddiant digidol, chwyddiant ynni / tanwydd, cynnydd yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth (SLA) gyda chyrff eraill GIG Cymru ac ati.

Mae'r cynllun ariannol yn tybio bod costau rheolaidd dyfarniadau cyflog presennol ac yn y dyfodol yn cael eu hariannu'n llawn ac yn cael eu hadlewyrchu mewn addasiadau i ddyraniadau refeniw.

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn cadarnhau y bydd y dyraniad cyllid refeniw cychwynnol yn parhau i fod yn £389.858m, gan gynnwys £5.2m y mae Llywodraeth Cymru, ar gyfer 2026-27, wedi'i drosglwyddo o ddyraniad cylchol i ddyraniad anghylchol fel rhan o ddyraniad Costau Rhedeg / Rhaglenni (£58.551m). Mae'r cyllid hwn yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd i gefnogi'r gwaith o gyflawni blaenoriaethau allweddol yn y Llythyr Cylch Gwaith, seilwaith sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Addysg a Hyfforddiant a chyflawni rhai o rwymedigaethau statudol a rheoleiddiol AaGIC. Felly, bydd yn bwysig cael trafodaeth amserol gyda swyddogion Llywodraeth Cymru i bennu'r cyllid parhaus ar gyfer y rhain, a'u darpariaeth, y tu hwnt i 2026-27.

Mae'r Llythyr Cylch Gwaith yn datgan bod cyllid y Cynllun Addysg a Hyfforddiant (£331.307m) wedi'i glustnodi. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu eglurhad pellach ar y trefniant clustnodi (dyddiedig 21 Mawrth 2026) sy'n datgan y bydd angen cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer unrhyw drosglwyddiadau ffurfiol / newidiadau mewn gwerthoedd mewn perthynas ag unrhyw ymrwymiadau ariannol sydd y tu allan i'r ETP, ond lle mae AaGIC yn bwriadu eu hariannu drwy elfen gyllido ETP dyraniad cyffredinol AaGIC. Mae hyn yn berthnasol i ymrwymiadau ariannol cylchol ac anghylchol.

Nid yw goblygiadau ariannol y canfyddiadau sy'n deillio o'r adolygiad llinell sylfaen y gofynnwyd amdano yn y Llythyr Cylch Gwaith wedi cael eu hadlewyrchu yn y cynllun ariannol. Disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau erbyn 30 Mehefin 2026, ac ar ôl hynny bydd y cynllun ariannol yn cael ei adolygu i ystyried unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt.

Cynllun ariannol cyfalaf: dull gweithredu a rhagdybiaethau allweddol

Mae Cyfalaf Dewisol AaGIC wedi cael ei gadarnhau fel £112k ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 a bydd yn cefnogi mân flaenoriaethau cyfalaf yn ystod y flwyddyn i'w datblygu. Bydd y rhaglen gyfalaf yn cael ei chwblhau yn dilyn proses o adolygu prosiectau a blaenoriaethau gyda deiliaid cyllidebau a phartneriaid perthnasol eraill. Bydd hyn yn cael ei gymeradwyo gan y Tîm Gweithredol ar ôl ystyried y blaenoriaethau hyn yn erbyn amcanion strategol y sefydliad.

Mae AaGIC hefyd yn cael cyllid cyfalaf strategol. Ar hyn o bryd mae hyn yn cynnwys £567k sy'n ymwneud ag adnewyddu rhaglen TG y sefydliad yn barhaus, gan gynnwys cyfraniad (£400k) at ddatblygu Codi (llwyfan digidol). Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda swyddogion Llywodraeth Cymru ynghylch y buddsoddiad parhaus yn Codi - gan gynnwys disodli nifer o hen systemau a'r newid busnes cysylltiedig.

Rheolaeth ariannol effeithiol

Mae cyflawni'r cynllun ariannol yn gofyn am systemau a rheolaethau ariannol cadarn ac arweinyddiaeth a rheolaeth ariannol effeithiol, er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig o fewn yr adnoddau ariannol sydd ar gael. Mae hyn yn cynnwys:

Arweinyddiaeth:

- Sicrwydd y Bwrdd o gynllun adnoddau sy'n nodi bwriad AaGIC i gydymffurfio â'r gofyniad statudol ar gyfer Cynllun Tymor Canolig Integredig sy'n ariannol gytbwys wrth gyflawni cynllun i gyflawni ei flaenoriaethau strategol.
- Arweinyddiaeth glir ac effeithiol gan y Tîm Gweithredol.
- Cynllunio, monitro, cefnogi a gweithredu amserol gan y Tîm Cyllid.
- Gweithio'n effeithiol gyda'r holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, Uwch Arweinwyr, Deiliaid Cyllidebau ac Adrannau.
- Ymyrraeth a rhyngweithio amlwg ac amserol gan yr holl Gyfarwyddwyr Gweithredol, Uwch Arweinwyr a Deiliaid Cyllidebau.
- Archwilio a chydweithio o ran strategaethau, cynlluniau a dulliau gweithredu gyda sefydliadau eraill y GIG.

Defnyddio Dull sy'n Seiliedig ar Werth ar gyfer gweithgareddau Comisiynu a Datblygu:

- Defnyddio dull seiliedig ar Werth i fynegi manteision buddsoddi adnoddau mewn Addysg a Hyfforddiant a blaenoriaethau eraill ar gyfer y gweithlu.
- Gwreiddio dull cadarn a darbodus o ddatblygu achosion busnes.

Disgyblaeth Gadarn - defnyddio'r canllawiau Gafael a Rheoli a rhestr wirio:

- Rheolaeth ariannol ddisgybledig ar yr holl ymrwymiadau gwariant gan gynnwys rheolaethau a chamau gweithredu ychwanegol yn 2026-27 sy'n adlewyrchu lefel y risg yn y cynllun.
- Monitro a rheoli'r sefyllfa ariannol yn barhaus ac yn fanwl.
- Ymateb cywirol amserol i unrhyw amrywiad oddi wrth y cynllun.
- Nodi risgiau a chyfleoedd gan gynnwys arbedion ac adnoddau posibl y gellir eu hail-ddefnyddio.
- Cadw at safonau a gofynion llywodraethu da.

Sicrhau Sicrwydd a Llywodraethu rhagorol:

- Ymgysylltu'n effeithiol â deiliaid cyllidebau i gyflawni'r Cynllun a darparu hyfforddiant i gefnogi'r gwaith o reoli cyllidebau.
- Darparu cyngor ariannol amserol, cywir ac o ansawdd uchel i ddeiliaid cyllidebau, y Tîm Gweithredol a Bwrdd AaGIC.
- Cymorth arbenigol a chyngor technegol i ddeiliaid cyllidebau er mwyn gallu datblygu cynlluniau cadarn ac achosion busnes sy'n dangos gwerth am arian.
- Gwerthuso systemau'n barhaus i nodi meysydd arloesi neu welliant a chamau gweithredu amserol mewn ymateb i argymhellion archwilio.

Ymgysylltu â Deiliaid Cyllidebau:

- Bydd y Tîm Cyllid yn parhau i ddarparu adroddiadau a chefnogaeth amserol ac o ansawdd uchel yn rheolaidd i ddeiliaid cyllidebau.
- Bydd y Tîm Cyllid yn sicrhau bod Deiliaid Cyllidebau yn cael hyfforddiant er mwyn deall eu cyfrifoldebau.
- Cryfhau rhagolygon ariannol ymhellach yn gysylltiedig â pherfformiad er mwyn canfod risgiau a chyfleoedd ariannol cynnar.

Defnyddio'r adnoddau sydd ar gael i ddangos defnydd effeithlon o adnoddau lle bo'n briodol:

- Adroddiadau Perfformiad perthnasol ac amserol sy'n cyd-fynd â Fframwaith Perfformiad y sefydliad, gan gynnwys effaith ariannol gwyro oddi wrth weithgareddau a gynlluniwyd.
- Defnyddio Meincnodi perthnasol y GIG.
- Defnyddio mesurau effeithlonrwydd lle bo hynny'n bosibl.

A summary of the revenue financial plan is set out in the following table:

2026/27 – 2030/31 Cynllun Ariannol AaGIC IMTP

	Cyfanswm Gofyniad 2026/27	Cyfanswm Gofyniad 2027/28	Cyfanswm Gofyniad 2028/29	Cyfanswm Gofyniad 2029/30	Cyfanswm Gofyniad 2030/31
	£	£	£	£	£
Y Bwrdd a'r Weithrediaeth					
Cyflog	2,118,032	2,130,490	2,135,774	2,145,958	2,146,716
Digyflog	-449,641	-449,641	-449,641	-449,641	-449,641
Cyfanswm swyddfa'r Weithrediaeth	**1,668,391**	**1,680,849**	**1,686,133**	**1,696,317**	**1,697,075**
Cyllid, Cynllunio a Pherfformiad					
Incwm	-218,448	-218,448	-218,448	-218,448	-218,448
Cyflog	3,191,981	3,235,676	3,252,406	3,287,788	3,295,785
Digyflog	2,052,036	2,052,036	2,052,036	2,052,036	2,052,036
Cyfanswm Cyllid a Gwasanaethau Chorfforaethol	**5,025,569**	**5,069,264**	**5,085,994**	**5,121,376**	**5,129,373**
Digidol a TG					
Incwm	0	0	0l	0	0
Cyflog	4,825,192	4,934,645	4,992,632	5,023,159	5,029,232
Digyflog	1,971,570	1,971,570	1,971,570	1,971,570	1,971,570
Cyfanswm TG	**6,796,762**	**6,906,215**	**6,964,202**	**6,994,729**	**7,000,802**
Medical & Pharmacy					
Incwm	-710,030	-710,030	-710,030	-710,030	-710,030
Cyflog	16,419,778	16,581,714	16,672,582	16,722,354	16,733,309
Digyflog	9,832,651	9,832,651	9,832,651	9,832,651	9,832,651
TGS	94,765,486	94,765,486	94,765,486	94,765,486	94,765,486
Hyfforddiant Meddygon Teulu	50,373,334	50,373,334	50,373,334	50,373,334	50,373,334
I&R	315,780	315,780	315,780	315,780	315,780
PGMDE	4,891,666	4,891,666	4,891,666	4,891,666	4,891,666
WCAT	2,228,231	2,228,231	2,228,231	2,228,231	2,228,231
WDTFT	232,773	232,773	232,773	232,773	232,773
Fferylliaeth	15,703,028	15,703,028	15,703,028	15,703,028	15,703,028
Hyfforddiant Sylfaen Deintyddol	11,427,093	11,427,093	11,427,093	11,427,093	11,427,093
Treuliau Adleoli	2,547,800	2,547,800	2,547,800	2,547,800	2,547,800
Optometreg	521,031	521,031	521,031	521,031	521,031
Cyfanswm Cyfarwyddwr Meddygol	**208,548,621**	**208,710,557**	**208,801,425**	**208,851,197**	**208,862,152**
Addysg, Strategaeth a Thrawsnewid					
Incwm	-66,632	-66,632	-66,632	-66,632	-66,632
Cyflog	3,141,032	3,205,428	3,240,381	3,251,746	3,253,972
Digyflog	865,990	865,990	865,990	865,990	865,990
Comisiynu	155,214,312	155,214,312	155,214,312	155,214,312	155,214,312
Cyfanswm Addysg, Strategaeth a Thrawsnewid	**159,154,702**	**159,219,098**	**159,254,051**	**159,265,416**	**159,267,642**
Nursing, Health Professions & Quality					
Incwm	0	0	0	0	0
Cyflog	2,102,418	2,412,142	2,372,453	2,401,107	2,405,423
Digyflog	375,736	375,736	375,736	375,736	375,736
Cyfanswm Nyrsio	**2,478,154**	**2,787,878**	**2,748,189**	**2,776,843**	**2,781,159**
Y Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad					
Incwm	-73,073	-73,073	-73,073	-73,073	-73,073
Cyflog	6,098,330	6,179,029	6,248,387	6,281,121	6,285,219
Digyflog	4,991,205	4,991,205	4,991,205	4,991,205	4,991,205
Cyfanswm Y Gweithlu a Datblygu'r Sefydliad	**11,016,462**	**11,097,161**	**11,166,519**	**11,199,253**	**11,203,351**
Grand Total	**394,688,661**	**395,471,022**	**395,706,513**	**395,905,131**	**395,941,554**

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys y dyraniad refeniw yn unol â'r Llythyr Cylch Gwaith ynghyd â'r tybiaethau cyllid incwm eraill ar gyfer 2026/27:

		£m
Total Allocation 2026/27		**389.858**
Incwm Disgwyliedig Ategol		
Cynllun Gweithlu Iechyd Meddwl	2.745	
Therapïau seicolegol	0.062	
Gwobr Rhagoriaeth Glinigol	0.048	
Cyllid Dibrisiant	0.659	
Llog IFRS 16	-0.006	
Cynllun Gweithlu Strategol – Gofal Sylfaenol	0.141	
Dyfarniad Cyflog 2025/26 ESP	0.048	
Dyfarniad Cyflog 2026/27 A4C	0.961	
Dyfarniad Cyflog 2026/27 WDTFT	0.007	
Dyfarniad Cyflog 2026/27 SLE A4C Fferylliaeth	0.166	
Cyfanswm yr Incwm Ategol a Ragwelir		**4.831**
Cyfanswm Rhagdybiaeth Cyllid 2026/27		**394.689**

Pennod 7:
Atebolrwydd, Cyflawni a Risgiau



GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)
Health Education and Improvement Wales (HEIW)

Mae Pennod 7 yn crynhoi ein dull o fonitro a chyflawni ein cynllun. Mae'n hanfodol ein bod yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cadarn fel y gellir osgoi neu liniaru'r risgiau cyflawni a ddisgrifir yn y bennod hon.



Atebolrwydd, Cyflawni a Risgiau

Mae Bwrdd AaGIC wedi bod yn ymwneud â'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ac mae wedi gwneud y canlynol:

- Adolygu cynllun y llynedd i nodi a oedd unrhyw ran o'i gynnwys yn dal yn berthnasol
- Defnyddio'r Model Tri Gorwel i archwilio'r berthynas rhwng anghenion gweithredol presennol ac arloesedd yn y dyfodol
- Adolygu allbynnau ein gweithdai mewnol a'n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid sy'n canolbwyntio ar IMTP
- Derbyn a chymeradwyo ein Blaenoriaethau Strategol newydd ar gyfer 2026-29.

Derbyniodd y Bwrdd y Llythyr Cylch Gwaith i'w nodi a'r Cynllun Tymor Canolig Integredig i'w gymeradwyo'n ffurfiol ym mis Mawrth 2026.

Monitro Perfformiad

Mae'r Bwrdd yn craffu ar berfformiad AaGIC ac yn ei sicrhau, ac yn monitro'r gwaith o gyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy adroddiadau perfformiad integredig bob deufis.

Fel y nodwyd ym Mhennod 4, mae pob un o'n hamcanion yn seiliedig ar gynllun sy'n galluogi monitro eu gweithrediad, ac sy'n nodi:

- Y sefyllfa sylfaenol a'r pwynt gorffen dymunol
- Aliniad â'n sbardunau strategol
- Mesurau perfformiad chwarterol a'u dull asesu
- Datganiadau buddion
- Risgiau cyflawni
- Gofynion galluogi

Mae Fframwaith Rheoli Perfformiad AaGIC yn disgrifio ein trefniadau rheoli perfformiad ac yn nodi sut bydd y gwaith o gyflawni ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael ei fonitro. Bydd hyn yn cynnwys:

- Adroddiadau misol i fonitro'r gwaith o gyflawni amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r defnydd o sgoriau RAG (Coch, Oren a Gwyrdd) i roi sicrwydd o gynnydd.
- Gwreiddio diwylliant o fuddion, gydag adroddiadau'n canolbwyntio ar fuddion mesuradwy a mesurau effaith.
- Rhoi trefniadau uwchgyfeirio ar waith ar gyfer yr amcanion hynny nad ydynt yn mynd rhagddynt yn unol â'r amserlenni a gynlluniwyd.
- Diwylliant o atebolrwydd sy'n grymuso timau drwy ddirprwyo cyfrifoldeb, annog rhybuddio'n gynnar am risgiau a dull dim byd annisgwyl, cydnabod cyflawniadau, a chreu amgylchedd cefnogol sy'n annog bod yn agored a chyfathrebu.

Mae'r gwaith o fonitro'r broses o gyflawni ein Cynllun Tymor Canolig Integredig wedi cael cymorth pellach drwy ddatblygu 'ap perfformiad' sy'n galluogi timau i adrodd ar statws eu hamcanion bob mis, ac sy'n cael ei ddefnyddio i lenwi 'dangosfwrdd perfformiad'.

Mae'r Bwrdd yn cael adroddiadau rheolaidd i roi sicrwydd ynghylch cyflawni pob amcan yn y Cynllun Tymor Canolig Integredig a'r rhaglenni gwaith cysylltiedig. Mae hyn wedi bod yn effeithiol o ran hoelio sylw ar amcanion nad ydynt ar y trywydd iawn. Mae'r adroddiadau hefyd yn cynnwys dangosyddion nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig, ond sy'n ddangosyddion pwysig o berfformiad y sefydliad. Mae'r rhain yn cynnwys y gweithlu mewnol (staff mewn swydd, trosiant, salwch a hyfforddiant) ac ansawdd (gan gynnwys materion dan reolaeth, cynnydd a chefnogaeth hyfforddeion, ac arfarniadau meddygol).

Adroddir ar gynnydd cyffredinol AaGIC bob blwyddyn drwy adroddiad blynyddol. Byddwn hefyd yn adrodd ar gyflawniad y Cynllun Tymor Canolig Integredig drwy'r dull newydd o oruchwylio GIG Cymru a'r trefniadau rhyngwyneb y mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno arnynt ar gyfer 2026-27. Bydd y trefniadau hefyd yn golygu creu pecyn adrodd cyffredin, ac un rhyngwyneb gweithredol drwy Berfformiad a Gwella GIG Cymru.

Rheoli Newid

Fel y nodwyd yn y dadansoddiad PESTLE a gynhaliwyd i gefnogi'r Cynllun Tymor Canolig Integredig hwn, mae'r cynllun hwn wedi cael ei ddatblygu yn ystod cyfnod o ddynamiaeth a newid. Felly, mae'n hanfodol ein bod yn cadw hyblygrwydd o ran cynllunio a darparu; rhaid i AaGIC allu ymateb i ddisgwyliadau a blaenoriaethau cenedlaethol Llywodraeth newydd Cymru sy'n esblygu ar yr un pryd â chynnal rhaglen waith fforddiadwy a chyraeddadwy.

Pan fydd angen gwneud newidiadau mewn ymateb i ddyfodiad blaenoriaethau newydd, byddant yn destun mesurau rheoli newid cadarn. I'r perwyl hwn:

- Byddwn yn sefydlu gweithdrefn glir ar gyfer gwneud cais am newid, lle mae unrhyw newid arfaethedig yn cael ei gofnodi gan ddefnyddio templed safonol sy'n egluro'r newid, y rheswm drosto, y manteision disgwyliedig, y risgiau, y costau a'r effeithiau.
- Bydd gennym rolau a chyfrifoldebau diffiniedig: bydd newidiadau sy'n dod i'r amlwg yn cael eu cwmpasu a'u datblygu gan Uwch Swyddogion Cyfrifol a Chyfarwyddiaethau, gyda chymeradwyaeth (ac unrhyw ail-flaenoriaethu Amcanion Datblygu canlyniadol) yn cael ei gadw gan y Tîm Gweithredol.
- Bydd pob newid yn cael ei werthuso a'i asesu o ran ei effaith ar ein Blaenoriaethau Strategol, cyflawni Amcanion Datblygu sy'n bodoli eisoes, cyllideb, adnoddau, amserlenni, risgiau, rhanddeiliaid.
- Bydd yr holl newidiadau'n cael eu cofnodi, gyda phenderfyniadau cymeradwy'n cael eu cofnodi a fersiynau wedi'u diweddaru o'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn cael eu cynnal gan y Tîm Cynllunio a Pherfformiad fel bod pob parti'n parhau i weithio'n unol â'r fersiwn ddiweddaraf a gymeradwywyd.
- Bydd rhanddeiliaid yn cael gwybod am newidiadau sydd wedi cael eu cymeradwyo, y rhesymau y tu ôl iddynt, unrhyw gamau gweithredu sydd eu hangen a'u goblygiadau disgwyliedig.

Risgiau Cyflawni

Mae nifer o risgiau cyflawni allweddol wedi dod i'r amlwg wrth ddatblygu'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Bydd angen rheoli'r rhain drwy'r trefniadau sydd gan y Bwrdd ar waith i fonitro a rheoli risgiau sefydliadol AaGIC. Mae'r trefniadau'n cynnwys drwy Bolisi Rheoli Risg AaGIC a Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd.

Gallai'r risgiau cyflawni rydym wedi'u nodi beryglu'r gwaith o gyflawni gwahanol agweddau ar ein cynllun. Bydd y rhain yn cael eu monitro yn ystod y flwyddyn a'u rheoli a/neu eu lliniaru lle bo angen. Os bydd rhai o'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu, efallai y bydd angen ailedrych ar ddichonoldeb blaenoriaethau a/neu amcanion strategol.

Capasiti Digidol a Data Sefydliadol

- **Disgrifiad:** Mae'r rhan fwyaf o'n hamcanion Datblygu a Chyflawni Craidd yn gofyn am gymorth digidol a data i hwyluso'r ddarpariaeth. Mae hyn yn ychwanegol at nifer o amcanion penodol y mae'r Gyfarwyddiaeth Ddigidol, Data ac Ymgysylltu yn gyfrifol amdanynt.
- **Effaith:** Os bydd cyflawni'r Cynllun Tymor Canolig Integredig yn rhoi pwysau sylweddol, a allai fod yn anymarferol, ar y Gyfarwyddiaeth Ddigidol, Data ac Ymgysylltu o ran adnoddau, efallai na fydd AaGIC yn gallu cyflawni ei Gynllun Tymor Canolig Integredig yn llawn. Byddai unrhyw fethiant o'r fath yn effeithio ar wireddu'r buddion a ragwelir a gallai effeithio ar y gwasanaeth a ddarperir i Lywodraeth Cymru a sefydliadau eraill y GIG.
- **Lliniaru:** Mae ceisiadau am gymorth digidol a data wedi cael eu blaenoriaethu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Tymor Canolig Integredig; bydd ceisiadau annisgwyl am gymorth yn ystod y flwyddyn yn cael eu blaenoriaethu gan y Grŵp Cynllunio a Blaenoriaethu Digidol a Data; bydd y Tîm Gweithredol yn blaenoriaethu ac yn goruchwylio'r cynllun cyflawni data a digidol.

Dibyniaeth ar gyllid tymor byr

- **Disgrifiad:** Mae nifer o amcanion y Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dibynnu ar gyllid tymor byr/anghylchol i gefnogi staff a gweithgareddau. Mae risg na fydd y cyllid a ragwelir ar gael o ganlyniad i bwysau ariannol ar draws y system, gan arwain at golli staff ac oedi gweithgareddau a gynlluniwyd.
- **Effaith:** Ni fyddai AaGIC yn gallu cyflawni'r amcanion a ddisgrifir yn ei Gynllun Tymor Canolig Integredig, gan arwain at effaith bosibl ar wasanaethau, methu sicrhau'r manteision a ragwelir a niwed i enw da.

- **Lliniaru:** Mae AaGIC wedi blaenoriaethu'r amcanion a nodwyd yn y Llythyr Cylch Gwaith a'n swyddogaethau statudol. Bydd unrhyw gyfle i ymgymryd â gwaith ychwanegol yn cael ei gyfyngu nes bydd modd cadarnhau bod cyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu neu nes bydd modd adleoli adnoddau craidd. Lle mae amcanion yn amodol ar ryngddibyniaethau ariannol, mae'r rhain wedi cael eu disgrifio.

Heriau ariannol yn Sector Addysg Uwch Cymru

- **Disgrifiad:** Gall yr heriau ariannol y mae'r rhan fwyaf o Sefydliadau Addysg Uwch yn eu hwynebu eu harwain i adolygu eu rhaglenni addysg iechyd, gan roi'r gorau i'r rhaglenni hynny sydd, yn eu barn nhw, yn anhyfyw yn ariannol.
- **Effaith:** Byddai unrhyw golli neu ad-drefnu rhaglenni addysg iechyd yn peryglu sefydlogrwydd recriwtio myfyrwyr yng Nghymru, gan greu anghydraddoldebau o ran mynediad at addysg a pheryglu llif staff GIG Cymru.
- **Lliniaru:** Byddwn yn parhau i weithio gyda'n sefydliadau addysg uwch sy'n bartneriaid i sicrhau ein bod yn cael gweld yn gynnar unrhyw newidiadau posibl i'w portffolios addysg iechyd; byddwn yn cynllunio senarios i ddeall effaith unrhyw newidiadau; os cadarnheir y bydd lleoedd yn cael eu colli, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau addysg uwch sy'n bartneriaid i ganfod a chomisiynu darparwyr eraill.

Gofynion Ymgysylltu

- **Disgrifiad:** Mae llawer o amcanion ein Cynllun Tymor Canolig Integredig yn dibynnu ar ryngddibyniaethau allanol ac mae angen ymgysylltu â'n sefydliadau partner a chael mewnbwn ganddynt i'w cyflawni'n llawn.
- **Effaith:** Gall unrhyw rwystr rhag ymgysylltu'n llawn arwain at fethu â chyflawni ein hamcanion, gan arwain at effaith bosibl ar y gwasanaeth, methu â sicrhau'r manteision a ragwelir a niwed i enw da.
- **Lliniaru:** Mae AaGIC yn adolygu ei brosesau a'i ryngweithiadau cyfathrebu ac ymgysylltu yn rheolaidd, mae wedi datblygu a gweithredu fframwaith cyfathrebu newydd, a bydd yn parhau i wneud y gorau o'i ddulliau gweithredu i sicrhau bod modd ymgysylltu'n ystyrlon pan fo angen.

GIG CYMRU NHS WALES

Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC)

Health Education and Improvement Wales (HEIW)